Adroddiad Perfformiad Blynyddol a Hunanasesiad 2025-26

Rhagair yr Arweinydd

Y Cynghorydd Nia Jeffreys
Arweinydd y Cyngor

DRAFT

Cyflwyniad

Mae 'Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28' yn cynnwys cyfres o brosiectau uchelgeisiol fydd yn ein galluogi i ddatblygu a gwella ein gwasanaethau i drigolion y sir dros gyfnod o bum mlynedd. Daw'r prosiectau dan saith maes blaenoriaeth:

- **Gwynedd Yfory**
  Rhoi'r cychwyn gorau posibl mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc
- **Gwynedd Lewyrchus**
  Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng
- **Gwynedd Glyd**
  Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau
- **Gwynedd Ofalgar**
  Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau
- **Gwynedd Gymraeg**
  Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posibl i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned
- **Gwynedd Werdd**
  Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd
- **Gwynedd Effeithlon**
  Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau bod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon

Mae'r adroddiad hwn yn edrych yn ôl ar yr hyn a gyflawnwyd yn ystod trydedd blwyddyn Cynllun y Cyngor. Mae'n arferiad cynnal adolygiad blynyddol o'r Cynllun er mwyn sicrhau bod y prosiectau yn parhau yn addas, ac i roi cyfle i'r Cyngor eu haddasu yng ngoleuni datblygiadau lleol a chenedlaethol dros gyfnod y Cynllun. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn adrodd ar y cynllun fel a gytunwyd gan y Cyngor ar y 6ed o Fawrth, 2025.

Fel y llynedd, rhennir yr adroddiad i benodau sy'n adlewyrchu'r saith maes blaenoriaeth, gan ddisgrifio'r cynnydd sydd wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn ynghyd â'r prif gyflawniadau yng ngwaith dydd i ddydd ein hadrannau, er enghraifft addysg, yr amgylchedd a chyllid.

Y Meysydd Blaenoriaeth o fewn y ddogfen hon yw ein Hamcanion Llesiant dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd yr Amcanion yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni'r saith nod llesiant cenedlaethol. Wrth weithredu byddwn hefyd yn rhoi ystyriaeth briodol i'r pum ffordd o weithio o fewn y Ddeddf drwy ystyried yr hirdymor, atal, gweithio'n integredig, gweithio'n gydweithredol a chynnwys pobl o bob oed. Byddwn yn gwneud hyn drwy fabwysiadu ffordd o weithio sydd yn canolbwyntio ar roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud. Mae'r tabl ar ddiwedd yr adroddiad yn dangos cyfraniad pob prosiect blaenoriaeth tuag at y pum ffordd o weithio.

Gan edrych ymlaen, bydd adolygiad y Cynllun ar gyfer 2026/27 yn adeiladu ar y cynnydd sydd eisoes wedi'i gyflawni drwy gyflwyno a rhoi mwy o bwyslais ar faes blaenoriaeth newydd, **Gwynedd Gyfartal**, a **Chynllun Ymateb: Cyfiawnder Trwy ein Dewrder**. Bydd Gwynedd Gyfartal yn pwysleisio bod cydraddoldeb, tegwch a chynhwysiant yn sail greiddiol i

holl waith y Cyngor, gan ddwyn ynghyd y gwaith i sicrhau tegwch i bawb, cryfhau cynrychiolaeth gynhwysol mewn arweinyddiaeth, a datblygu Gwynedd yn sir sy'n gyfeillgar i blant ac yn ystyriol o drawma. Bydd rhoi lle amlwg i'r Cynllun Ymateb hefyd yn tanlinellu ei bwysigrwydd ac ymrwymiad parhaus y Cyngor i weithredu argymhellion yr adroddiad. Er nad oedd yn rhan o Gynllun y Cyngor yn 2025/26 rydym wedi bod yn adrodd yn gyson ar gynnydd y mesurau sydd wedi eu rhoi yn eu lle er mwyn ymateb i argymhellion dros y misoedd diwethaf a byddwn yn parhau i wneud hynny. Gellir gweld yr adroddiadau hyn ar wefan y Cyngor.

Ail ran yr adroddiad perfformiad ydi ein hunanasesiad ar gyfer y flwyddyn. Dyma ein pumed hunanasesiad. Disgwylir i'r Cyngor gyflwyno hyn yn flynyddol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Atodir y rhan sy'n amlinellu sut mae'r Cyngor yn cydymffurfio â'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol sy'n ofyn adrodd newydd o dan Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023.

Mae'r angen i wneud arbedion ariannol bron â bod yn her flynyddol i Lywodraeth Leol bellach, a doedd y llynedd ddim gwahanol. Mae arbedion gwerth bron i £47 miliwn, sef 93% o'r cynlluniau diwygiedig ers 2015 bellach wedi'u gwireddu. Er gwaethaf yr heriau ariannol yma, mae'r Cyngor yn dygymod yn gyson gan geisio canfod ffyrdd gwell a mwy effeithlon o ddarparu gwasanaethau.

Fel rhan o'n trefniadau perfformiad, cynhelir cyfres o gyfarfodydd herio a chefnogi perfformiad adrannol yn rheolaidd er mwyn gweld sut gynnydd mae'r adrannau yn ei wneud gyda'u gwaith dydd i ddydd yn ogystal â phrosiectau Cynllun y Cyngor. Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol hwn yn seiliedig ar ganfyddiadau'r cyfarfodydd herio a chefnogi perfformiad yma. Nid tynnu sylw at y pethau da yn unig yw bwriad yr adroddiad, ond rhoi darlun teg a gonest o'n perfformiad yn ystod y flwyddyn. Wrth wneud hynny, rydym yn gallu dathlu ein llwyddiannau a gweld pa agweddau o'n gwaith sydd angen sylw pellach, er mwyn ein cynorthwyo i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i drigolion y sir o fewn yr adnoddau sydd gennym.

Mae'r Adroddiad blynyddol hwn yn cael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor ac i gyfarfod y Cyngor Llawn ar gyfer cymeradwyaeth.

Gwynedd Yfory

Mae Gwynedd Yfory yn canolbwyntio ar roi'r cychwyn gorau posibl i blant a phobl ifanc. Drwy fuddsoddi mewn addysg, llesiant, chwarae, cynhwysiad a chefnogaeth gynnar, rydym yn gweithio i sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle teg i ddysgu, datblygu a ffynnu yn eu cymunedau.

Ein huchelgais yw sicrhau bod pob disgybl a addysgir yng Ngwynedd yn cael:

- Eu trin yn gyfartal, eu hannog i drin eraill yn gyfartal a sicrwydd bod eu llesiant a'u hapusrwydd yn flaenoriaeth gennym.
- Addysg o'r safon orau gan gynnwys mynediad at ystod eang o bynciau academaidd a galwedigaethol er mwyn cyflawni gofynion y 'Cwricwlwm i Gymru' newydd.

- Mynediad at Addysg cyfrwng Cymraeg drwy gydol eu cyfnod mewn addysg.
- Eu haddysgu mewn adeiladau sydd mewn cyflwr da, yn ddiogel ac yn addas i bwrpas hyd orau ein gallu.
- Y cyfle i ddatblygu i fod yn bobl gyflawn, hapus a hyderus yn y byd.
- Cefnogaeth gan wasanaethau proffesiynol wedi eu teilwra i gwrdd ag anghenion dysgu ychwanegol.
- Y cyfle i gael pryd maethlon yn yr ysgol yn ddigost i gymaint o ddisgyblion â phosibl.
- Mynediad at gyfarpar a thechnoleg sy'n hybu dysgu cyfoes ac effeithiol.
- Sicrhad bod caeau chwarae a chyfleusterau addas ar gael i blant a phobl ifanc yn eu hamser hamdden.

Prosiectau

- Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar
- Moderneiddio adeiladau a'r amgylchedd dysgu
- Hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc a lleihau cost anfon plant i'r ysgol
- Ymestyn cyfleoedd chwarae a chymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y sir
- Llunio a gweithredu ar gyfeiriad strategol 10 mlynedd ar gyfer addysg yng Ngwynedd
- Adolygu a gwella'r ystod o ddarpariaethau cynhwysiad yng Ngwynedd

Diweddariad ar y prosiectau

Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar

Mae'r gwaith blynyddoedd cynnar wedi canolbwyntio ar ehangu mynediad at ofal plant a chefnogi rhieni gyda chyngor ymarferol:

- Ymestynnwyd y Cynllun Gofal Plant 2 oed i'r ardaloedd canlynol: Tywyn, Harlech, Llandderfel a Llanuwchllyn, Penrhyndeudraeth, Efailnewydd/Buan, Botwnnog/Tudweiliog, Cricieth, Seiont 1 – Caernarfon, Llanberis a Phorthmadog Gorllewinol gan sicrhau bod rhagor o ardaloedd o fewn y Sir yn elwa o'r Cynllun. Mae'r Cynllun yn cael effaith gadarnhaol ar deuluoedd drwy roi mynediad i 12.5 awr o ofal plant am ddim, gan helpu i leihau costau byw. Gwelir effaith gadarnhaol ar blant, drwy iddynt gael mynediad at ofal o ansawdd a gweithgareddau sy'n cefnogi eu datblygiad ochr yn ochr â'u cyfoedion. Mae'r Cynllun yn galluogi'r darparwyr i elwa drwy fuddsoddiad ariannol mewn adnoddau a chefnogaeth a chymorth proffesiynol gan Athrawes Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar a'r tîm gofal plant ehangach.
- Fe gafodd y Polisi Toiledu i ysgolion Gwynedd ei newid ym Medi 2025 a pharatowyd teuluoedd at y newid drwy gydweithio yn draws adrannol gydag Iechyd a chrëwyd pennod o bodlediad *Mam, Dad a Magu* yn canolbwyntio ar doiledu. Mae'r podlediad yn helpu teuluoedd ar y daith drwy blynyddoedd cychwynnol ac allweddol plentyndod. Mae'r podlediad ar gael ar amryw o lwyfannau fel YouTube a Spotify.

Moderneiddio adeiladau a'r amgylchedd dysgu

Mae'r gwaith moderneiddio ysgolion wedi symud ymlaen er mwyn sicrhau amgylcheddau dysgu mwy addas, diogel a chynaliadwy i blant a staff:

- Parhaodd y Cyngor i fuddsoddi mewn moderneiddio adeiladu addysgol er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc Gwynedd yn cael mynediad at amgylcheddau dysgu diogel, cynaliadwy ac addas ar gyfer anghenion y dyfodol. Bydd y buddsoddiad hwn

nid yn unig yn gwella profiadau addysgol dysgwyr, ond hefyd yn cyfrannu at lesiant cymunedol lleol. Cymeradwyodd y Cabinet gynyddu cyllideb prosiect Ysgol Tryfan o £18 miliwn i £23.6 miliwn i gyflawni gofynion sero net, gan gefnogi amgylchedd dysgu modern a mwy cynaliadwy i ddysgwyr Bangor. Mae'r tîm dylunio yn parhau i weithio ar ddatblygu'r cynllun a bydd yr achos busnes yn cael ei gyflwyno yn nhymor yr Haf 2026.

- Yn ardal Bontnewydd, cwblhawyd adeilad dros dro newydd sydd wedi galluogi'r ysgol a'r ganolfan gymunedol barhau i weithredu heb darfu ar ddarpariaeth addysgol na gweithgareddau cymunedol. Mae hyn wedi sicrhau sefydlogrwydd i ddisgyblion, staff a defnyddwyr y ganolfan tra bo'r gwaith yn mynd rhagddo ar ddatblygu'r adeilad parhaol newydd.
- Yn Ysgol Ein Harglwyddes, cwblhawyd y gwaith adeiladu ar yr ysgol newydd. Gan ddarparu cyfleusterau modern o safon uchel i ddisgyblion a staff. Bydd yr adeilad newydd yn cefnogi profiadau dysgu gwell, yn cynnig amgylchedd mwy hygyrch a deniadol, ac yn cyfrannu at lesiant y gymuned ysgol gyfan am flynyddoedd i ddod. Agorodd yr ysgol ar ôl gwyliau'r haf 2026.
- Yn ogystal, cwblhawyd y gwaith dylunio ar gyfer datblygiad Ysgol Hirael yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn gam pwysig tuag at ddarparu cyfleusterau modern a fydd yn cryfhau'r ddarpariaeth addysgol leol ac yn sicrhau bod dysgwyr ardal Bangor yn gallu manteisio ar amgylchedd dysgu sy'n diwallu anghenion addysg gyfoes. Mae'r rhaglen moderneiddio ysgolion yn sicrhau bod mwy o blant a phobl ifanc yn cael mynediad at adeiladau modern, cynaliadwy ac ysbrydoledig sy'n cefnogi eu haddysg a'u llesiant. Yn ogystal â gwella profiadau dysgu, mae'r buddsoddiad yn cryfhau cymunedau lleol trwy ddarparu cyfleusterau o ansawdd uchel y gall ysgolion a chymunedau eu defnyddio a'u mwynhau gyda'i gilydd.

Hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc a lleihau cost anfon plant i'r ysgol

Mae'r gwaith hwn wedi canolbwyntio ar ddeall a lleihau'r costau sy'n gallu rhwystro plant rhag cymryd rhan lawn ym mywyd ysgol:

- Mae'r ysgolion wedi defnyddio canfyddiadau'r Awdit ysgol Cost Gyfeillgar i weithredu camau ymarferol er mwyn lleihau costau i deuluoedd. O ganlyniad, maent wedi adolygu polisïau gwisg ysgol, hyrwyddo cynlluniau dillad ail-law, ystyried cost tripiau ysgol a gweithgareddau ychwanegol, gan sicrhau bod gwybodaeth am gymorth ariannol ar gael yn glir ac wedi'u rhannu â rhieni a gofalwyr. Yn dilyn hyn, datblygwyd Siarter Ysgol Cost Gyfeillgar, a bellach mae'r ysgolion yn gweithio tuag at gyflawni'r mesuryddion perthnasol er mwyn cael eu hadnabod fel ysgolion 'Cost Gyfeillgar'. Cefnogir yr ysgolion i weithredu egwyddorion y Siarter, rhannu arferion llwyddiannus ar draws y sir, a sicrhau bod llais teuluoedd a dysgwyr yn parhau i lywio'r ddarpariaeth. Yn ogystal rhoddir mwy o gyfleoedd i blant a phobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau, waeth beth yw sefyllfa ariannol y teulu.
- Mae'r gwaith hwn yn cyfrannu at leihau'r pwysau ariannol ar deuluoedd Gwynedd ar adeg pan fo llawer yn wynebu heriau costau byw sylweddol. Trwy leihau costau sy'n gysylltiedig â gwisg ysgol, teithiau a gweithgareddau, mae ysgolion yn helpu i sicrhau bod pob plentyn yn gallu manteision ar gyfleoedd addysgol a datblygiadol yn gyfartal. Mae hyn yn cefnogi llesiant plant a phobl ifanc, yn cryfhau eu hymdeimlad o berthyn i gymuned yr ysgol, ac yn lleihau'r risg y bydd unrhyw blentyn yn cael ei eithrio oherwydd amgylchiadau ariannol.

DRAFT

Ymestyn cyfleoedd chwarae a chymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y sir
Mae'r prosiect chwarae ac ieuenctid wedi canolbwyntio ar roi mwy o gyfleoedd i blant a phobl ifanc gymdeithasu, chwarae a chael llais.

- Sefydlwyd fforymau pobl ifanc ar draws y sir, gyda chynlluniau i lansio fforwm llais pobl ifanc llawn y Cyngor. Mae hyn yn creu cyfleoedd newydd i blant a phobl ifanc ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau, gan sicrhau bod gwasanaethau'n fwy ymatebol i'w hanghenion a bod lleisiau grwpiau sydd yn aml yn cael eu tangynrychioli yn cael eu clywed a'u gwerthfawrogi.
- Mae'r gwaith hwn wedi ehangu cyfleoedd i blant a phobl ifanc Gwynedd gymdeithasu a chael llawi mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae hyn yn cyfrannu ar wella eu llesiant, datblygu hyder a'u sgiliau cymdeithasol, a chryfhau eu hymdeimlad o berthyn i'w hysgolion a'u cymunedau lleol.
- Defnyddiwyd grant Cyfleoedd Chwarae Llywodraeth Cymru i wella 29 o gaeau chwarae ar draws y sir. Mae hyn yn rhoi mannau chwarae mwy diogel, deniadol a hygyrch i blant a theuluoedd yn eu cymunedau lleol.

Llunio a gweithredu ar gyfeiriad strategol 10 mlynedd ar gyfer addysg yng Ngwynedd
Mae'r strategaeth Ysgolion 2026-2036 wedi'i ddatblygu i osod cyfeiriad clir ar gyfer dyfodol addysg yng Ngwynedd.

- Cyflwynwyd y strategaeth ddrafft i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ac i'r Cabinet, ar ôl ymgysylltu ag ysgolion, llywodraethwyr, plant a phobl ifanc Gwynedd. Mae hyn yn sicrhau bod cyfeiriad hirdymor addysg yng Ngwynedd yn cael ei lywio gan brofiadau dysgwyr a dyheadau dysgwyr, teuluoedd a'r gweithlu addysg. Mae'r Strategaeth yn darparu cyfeiriad clir ar gyfer datblygu darpariaeth addysg dros y ddegawd nesaf, gan helpu i sicrhau bod plant a phobl ifanc Gwynedd yn meddu ar y sgiliau, y gefnogaeth a'r cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i ffynnu yn yr ysgol ac yn eu bywydau yn y dyfodol.
- Bydd y Strategaeth hefyd yn helpu'r Cyngor, ysgolion a phartneriaid i gynllunio'n fwy effeithiol ar gyfer heriau a chyfleoedd y dyfodol, gan sicrhau bod buddsoddiad mewn addysg yn parhau i ganolbwyntio ar wella canlyniadau a llesiant plant a phobl ifanc Gwynedd.

Adolygu a gwella'r ystod o ddarpariaethau cynhwysiad yng Ngwynedd
Mae'r gwaith cynhwysiad wedi canolbwyntio ar gryfhau cefnogaeth i ddysgwyr sydd angen cymorth ychwanegol:

- Mae Uned Cyfeirio Disgyblion 'Camu i'r Copa' yn Llanwnda bellach yn weithredol fel darpariaeth gofrestredig. Sefydlwyd Camu i'r Copa fel darpariaeth arbenigol i gefnogi dysgwyr sydd yn ei chael yn anodd ffynnu o fewn addysg brif lif. Prif nod yr Uned yw adfer hyder dysgwyr, meithrin eu gwydnwch a'u helpu i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i ailgysylltu ag addysg mewn ffordd gadarnhaol. Mae'n darparu cefnogaeth addysgol, emosiynol a chymdeithasol mewn amgylchedd diogel a meithringar, gan helpu dysgwyr sydd angen cymorth ychwanegol i aros mewn addysg, gwella eu llesiant a datblygu'r sgiliau a'r hyder sydd eu hangen arnynt i lwyddo. Mae'r ddarpariaeth hefyd yn rhoi sicrwydd ychwanegol i deuluoedd bod eu plant yn cael y gefnogaeth briodol mewn amgylchedd sy'n ymateb i'w hanghenion unigol.

DRAFT

- Cyhoeddwyd y Strategaeth Cynhwysiad i grwpiau strategol penaethiaid. Bydd hyn yn helpu ysgolion a'r Cyngor i ddarparu cefnogaeth fwy cyson a chyd gysylltiedig i ddysgwyr bregus ar draws y sir, gan leihau rhwystrau i ddysgu a sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael yr help sydd ei angen arnynt cyn gynted â phosibl. O ganlyniad, bydd mwy o deuluoedd yn gallu cael mynediad at gymorth clir a chyson, gan roi'r cyfle gorau i'w plant gymryd rhan lawn ym mywyd ysgol a chyflawni eu potensial.
- Mae'r gwaith hwn yn cyfrannu at greu system addysg fwy cynhwysol yng Ngwynedd lle mae plant a phobl ifanc yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i ffynnu yn academaidd, yn gymdeithasol ac yn emosiynol, lle mae teuluoedd yn gallu bod yn hyderus bod anghenion eu plant yn cael eu hadnabod a'u diwallu mewn modd amserol a phriodol. I lawer o'r bobl ifanc, mae'r ddarpariaeth wedi cynnig dechrau newydd. Mae gysgwyr wedi cael cyfle i feithrin perthnasoedd cadarnhaol gydag oedolion a chyfoedion, datblygu mwy o hyder ynddynt eu hunain a chryfhau eu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol. Mae hyn wedi helpu i wella llesiant, eu hymgysylltiad â dysgu a'u parodrwydd i gymryd rhan mewn addysg.

Rhai o'n prif gyflawniadau

- Mae'r Gwasanaethau Ieuenctid yn darparu 34 o brosiectau a chlybiau cymunedol wythnosol ar draws Gwynedd, gydag 16 yn Arfon, 10 ym Meirionnydd ac 8 yn Nwyfor, gan sicrhau lledaeniad daearyddol eang a mynediad teg i bobl ifanc ledled y sir. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys 12 clwb a ariennir gan gynghorau lleol, 3 Clwb Cyfeillgar mewn partneriaeth â Derwen, 18 o glybiau cymunedol symudol sy'n ymateb yn hyblyg i anghenion lleol, ac 1 clwb Niwro arbenigol.
- Mae lefelau uchel o gyfranogiad, 489 o achrediadau wedi'u cwblhau gan bobl ifanc, 97% yn adrodd gwelliant yn eu lles ar ôl defnyddio'r gwasanaeth, a 95% yn mwynhau'r ddarpariaeth.
- Mae'r ddarpariaeth Cinio Ysgol am Ddim i bob dysgwr cynradd wedi parhau i fod yn llwyddiant yn ystod 2025/26. Ym mis Mawrth 2026, ar gyfartaledd, darparwyd 6,160 o brydau cinio ysgol am ddim ar unrhyw ddiwrnod. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi parhau i gefnogi blaenoriaethau ehangach y Cyngor drwy hyrwyddo bwyd lleol, lleihau gwastraff bwyd a chodi ymwybyddiaeth ymysg dysgwyr o bwysigrwydd bwyta'n iach.
- Presenoldeb cyfartalog disgyblion o fewn yr Awdurdod hyd at Ebrill 2026 oedd 91.0%. Mae hyn yn cyfateb i gyfradd Cymru ar gyfer yr un cyfnod. Mae data hanesyddol Gwynedd yn dangos cynnydd cyson dros gyfnod o dair blynedd. Mae cefnogaeth uniongyrchol drwy Swyddogion Lles Addysg wedi parhau'n elfen allweddol o'r gwaith, gan helpu i leihau rhwystrau i fynychu'r ysgol a chefnogi dysgwyr i ail-ymgysylltu â'u haddysg. Cefnogir y cynnydd yma gan ffocws parhaus ar ymyrraeth gynnar, monitro o batrymau presenoldeb a chydweithio agos rhwng ysgolion, gwasanaethau'r Awdurdod a theuluoedd.
- Cafodd 100% o geisiadau Mynediad Blwyddyn 7 eu dewis cyntaf, a 99.8% o geisiadau dosbarth Derbyn lle yn yr ysgol ddewisol gyntaf.
- Mae lefelau boddhad defnyddwyr yn gyson uchel iawn (yn aml 97%-100%) ar draws nifer o wasanaethau ADY, gyda thystiolaeth glir o gynnydd ymysg plant sy'n derbyn cefnogaeth arbenigol.

DRAFT

Astudiaeth Achos - Ceir astudiaethau pellach ar y wefan perfformiad y Cyngor [linc]

Camu i'r Copa - Uned Cyfeirio Disgyblion yn Felinwnda

Sefydlwyd Uned Cyfeirio Disgyblion Camu i'r Copa ar safle cyn Ysgol Felinwnda, Llanwnda, ym mis Medi 2025 mewn ymateb i'r cynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n wynebu anghenion emosiynol, ymddygiadol a chymdeithasol cymhleth. Ei nod yw darparu cefnogaeth arbenigol i bobl ifanc sy'n ei chael yn anodd ymgysylltu ag addysg brif ffrwd, gan helpu i atal ymddieithrio, gwella presenoldeb a lleihau'r risg o wahardd o'r ysgol.

Yn ystod ei blwyddyn gyntaf, datblygwyd amgylchedd dysgu diogel, sefydlog a meithringar gyda dosbarthiadau bach, cynlluniau dysgu personol, cwricwlwm hyblyg a chymorth emosiynol wedi'i deilwra i anghenion unigol. Rhoddwyd pwyslais hefyd ar gryfhau'r cysylltiadau rhwng yr Uned, ysgolion, teuluoedd a gwasanaethau partner er mwyn sicrhau trefniadau pontio effeithiol a chefnogaeth i ddysgwyr.

Mae'r ddarpariaeth wedi cael effaith gadarnhaol ar lawer o bobl ifanc drwy wella eu hyder, eu gwydnwch, eu sgiliau cymdeithasol a'u hymgysylltiad ag addysg. Mae teuluoedd wedi elwa o weld eu plant yn derbyn cefnogaeth briodol mewn amgylchedd sy'n deall eu hanghenion, gan roi mwy o sicrwydd a lleihau pryderon. Mae ysgolion hefyd wedi manteisio ar arbenigedd yr Uned i gynllunio cefnogaeth fwy effeithiol. Er mai blwyddyn gyntaf y ddarpariaeth yw hon, mae'r dystiolaeth gynnar yn dangos bod Camu i'r Copa eisoes yn chwarae rhan bwysig wrth ailgysylltu dysgwyr bregus ag addysg a gosod sylfaen gadarn ar gyfer eu llwyddiant yn y dyfodol.

DRAFT

Gwynedd Lewyrchus

Mae Gwynedd Lewyrchus yn canolbwyntio ar gryfhau'r economi leol, cefnogi busnesau a chreu cyfleoedd gwaith gwell i bobl Gwynedd. Drwy fuddsoddi yn ein heconomi leol, diwylliant, twristiaeth gynaliadwy a chaffael lleol, rydym yn gweithio i gadw mwy o fudd economaidd o fewn cymunedau'r Sir. Ein huchelgais yw sicrhau:

- Swyddi o safon.
- Cefnogaeth i fusnesau ffynnu.
- Twristiaeth gynaliadwy er budd cymunedau.
- Cymunedau cryf a gwydn.
- Canol trefi llewyrchus a llawn bwrlwm.

Prosiectau

- Hyrwyddo ein diwylliant ac economi ymweld gynaliadwy
- Adfywio cymunedau a chanol trefi
- Creu'r amgylchiadau gorau posibl yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu, a chefnogi pobl Gwynedd mewn i waith
- Cadw'r Budd yn Lleol

Diweddariad ar y prosiectau

Hyrwyddo ein diwylliant ac economi ymweld gynaliadwy

Mae'r gwaith diwylliant ac economi ymweld wedi canolbwyntio ar gryfhau atyniadau lleol a chefnogi twristiaeth sy'n dod â budd i gymunedau:

- Dechreuwyd trafodaethau ar ddatblygu gofod Arosfan yn Nhywyn yn dilyn cwblhau safleoedd Cricieth, Pwllheli, Llanberis a Chaernarfon. Bydd hyn yn helpu i reoli aros dros nos yn well ac i sicrhau bod ymwelwyr yn cyfrannu'n fwy cadarnhaol at gymunedau lleol. Mae bwriad i gynnal gwerthusiad o'r peilot yn 2026/27 er mwyn dod i ganfyddiad o werth a phrif gwersi sydd i'w dysgu.
- Cwblhawyd gwelliannau i Amgueddfa Lloyd George a mae'r amgueddfa bellach wedi ail agor. Mae hyn yn cryfhau cynnig diwylliannol yr ardal ac yn rhoi mwy o gyfleoedd i drigolion ac ymwelwyr ddysgu am dreftadaeth leol.
- Mae gwelliannau allanol Storiel ar waith, a mae'r caffi wedi ailagor. Mae'r arddangosfeydd a'r Cynllun Datblygu Cynulleidfa yn helpu i ddenu mwy o bobl i'r safle ac i gryfhau rôl Storiel fel canolfan ddiwylliannol i'r gymuned.
- Mae prosiectau sylweddol ar waith ar draws y tirlun llechi, gan helpu cymunedau i elwa o dreftadaeth y Safle Treftadaeth y Byd drwy weithgareddau, celf gyhoeddus a buddsoddiad lleol:
    - Mae'r prosiect Llewyrch o'r Llechi eisoes wedi denu dros £35 miliwn o fuddsoddiad i gymunedau llechi Gwynedd. Mae'r prosiect wedi derbyn estyniad, a mae pob elfen o'r rhaglen bellach ar waith. Bydd hyn yn sicrhau bod y buddsoddiad yn parhau i gefnogi cymunedau llechi Gwynedd.
    - Cynhaliwyd 68 o ddigwyddiadau gyda 3,100 o bobl yn mynychu, gan gynnwys 1,938 o blant. Mae hyn yn helpu trigolion i gysylltu â'u treftadaeth ac yn sicrhau bod statws Treftadaeth y Byd yn dod â budd uniongyrchol i gymunedau lleol

DRAFT

- Gosodwyd celf cyhoeddus mewn pedwar o'r chwe lleoliad, gyda threfniadau'n symud ymlaen ar gyfer Llanberis a Bethesda. Mae hyn yn gwella golwg a hunaniaeth llefydd lleol ac yn helpu i ddathlu hanes a diwylliant yr ardaloedd llechi.
- Cynhaliwyd gweithgareddau LleCHI LleNI mewn cymunedau ac ysgolion. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd i blant, pobl ifanc a thrigolion ddeall a gwerthfawrogi treftadaeth lechi eu hardaloedd.

Adfywio cymunedau a chanol trefi

Mae gwaith wedi canolbwyntio ar fuddsoddi mewn canol trefi a phrosiectau lleol sy'n gwella cyfleusterau, cefnogi busnesau a chryfhau balchder cymunedol:

- Sicrhawyd £800,000 o Gronfa Ffyniant Cyffredin ar gyfer cronfa sy'n cefnogi prosiectau adfywio lleol fel Menter y Tŵr, Meithrinfa Seren Fach, Hen Lyfrgell Pentre Deiniolen, Canolfan Rhyd Ddu, Antur Nantlle a Menter Rabar i wella cyfleusterau a chefnogi gweithgarwch lleol.
- Sicrhawyd £1.3 miliwn o Gronfa Ffyniant Cyffredin ar gyfer Cynllun Adfywio Gwynedd Ni. Mae'r pecyn wedi cefnogi gwelliannau i fannau cyhoeddus, toiledau, adeiladau cymunedol a chynlluniau lleol, gan wneud trefi a phentrefi'n fwy deniadol i drigolion, busnesau ac ymwelwyr.
- Mae'r rhaglen Eiddo Gwag wedi helpu i ddod â 13 eiddo gwag yn ôl i ddefnydd mewn canol trefi, a mae £995,000 wedi'i sicrhau ar gyfer peilot Stryd Fawr Bangor. Mae hyn yn helpu i adfywio canol trefi ac i greu defnydd newydd i eiddo sydd wedi bod yn segur.
- Sicrhawyd grant Trawsnewid Trefi ar gyfer prosiectau yng Nghanolfan Porthmadog, Cob Crwn a Llety Arall, ynghyd ag arian rhagbaratoi ar gyfer Camp Rhufeinig Bangor a Chei Llechi. Mae pecyn £1.5 miliwn hefyd wedi'i ddatblygu ar gyfer Cronfa Effaith Balchder Bro, gan greu cyfleoedd pellach i wella llefydd lleol yn 2026/27.
- Fel rhan o Gynllun Adfywio Gwynedd Ni, cynigiwyd grantiau i 55 o gynghorau tref a chymuned drwy gronfa beilot o £370,000. Mae hyn wedi cefnogi prosiectau lleol fel murluniau, offer chwarae newydd, dodrefn stryd a phaneli gwybodaeth, gan wella mannau cymunedol a chodi balchder lleol
- Ers 2022/23 sicrhawyd £31.8 miliwn o grantiau ar gyfer datblygu a gweithredu prosiectau adfywio canol trefi yng Ngwynedd. Mae'r buddsoddiad hwn yn helpu i wella llefydd lleol, cefnogi busnesau a chreu canol trefi mwy bywiog i drigolion ac ymwelwyr.

Creu'r amgylchiadau gorau posibl yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu, a chefnogi pobl Gwynedd mewn i waith

Mae'r gwaith economaidd wedi canolbwyntio ar gefnogi busnesau, creu swyddi a helpu trigolion i ddatblygu sgiliau a chael gwaith:

- Sicrhawyd £500,000 i barhau ARFOR ar draws Gwynedd, Môn, Ceredigion a Sir Gâr. Mae hyn yn helpu i drosglwyddo'r dysgu o'r rhaglen ac i ddatblygu ymyraethau sy'n cefnogi pobl ifanc, mudo cadarnhaol a chymunedau Cymraeg.
- Cynhaliwyd Wythnos Busnes 2025 ym mis Hydref a rhannwyd newyddion a chyfleoedd â dros 4,000 o fusnesau yn wythnosol trwy fwletinau busnes. Mae hyn yn rhoi gwybodaeth amserol i fusnesau lleol ac yn eu helpu i fanteisio ar gefnogaeth a chyfleoedd datblygu.

DRAFT

- Datblygwyd strategaeth economaidd newydd a gafodd ei chymeradwyo gan y Cabinet a'r Cyngor Llawn. Bydd hyn yn rhoi cyfeiriad clir i fuddsoddiad economaidd y Cyngor ac yn targedu adnoddau at y meysydd sydd â'r potensial mwyaf i greu budd i fusnesau, gweithwyr a chymunedau lleol.
- Mae nifer o brosiectau economaidd mawr yn symud ymlaen, gan gynnwys unedau diwydiannol Parc Bryn Cegin, Hwb Gwledig Glynllifon, Academi Croeso Portmeirion, datblygiadau Zip World (Chwarel Penrhyn a Llechwedd), Ysgol Fusnes Albert Gubay (Prifysgol Bangor) a Chanolfan Sgiliau a Gwyddoniaeth Trawsfynydd . Bydd y buddsoddiadau hyn yn creu cyfleoedd gwaith, hyfforddiant a busnes newydd mewn gwahanol rannau o Wynedd.

Cadw'r Budd yn Lleol

Mae'r gwaith caffael wedi canolbwyntio ar sicrhau bod mwy o wariant y Cyngor yn creu budd lleol, gwerth cymdeithasol ac effaith gadarnhaol ar yr economi leol:

- Datblygwyd Strategaeth Caffael newydd sy'n gosod blaenoriaethau clir ym meysydd sicrhau budd lleol, lleihau carbon, gwerth am arian, gwerth cymdeithasol, technoleg, llywodraethu a'r Gymraeg.
- Mae pryniant mewn meysydd fel gofal cartref, tai, cludiant ysgolion, hurio offer ac ailgylchu yn cael eu darparu gan gwmnïau lleol. Mae hyn yn helpu i gadw mwy o wariant cyhoeddus o fewn economi Gwynedd.
- Datblygwyd a chynhaliwyd sesiynau hyfforddi i swyddogion sy'n caffael yn rheolaidd. Mae hyn yn cynyddu dealltwriaeth o sut i brynu'n lleol, sicrhau gwerth cymdeithasol a lleihau carbon drwy benderfyniadau caffael dydd i ddydd.
- Cydweithiwyd â Busnes Cymru ac Adra i godi ymwybyddiaeth busnesau o gyfleoedd caffael a'r rheoliadau caffael cenedlaethol newydd. Mae hyn yn helpu busnesau lleol i ddeall sut i gystadlu am waith ac i fanteisio ar gyfleoedd yn y sector cyhoeddus.

Rhai o'n prif gyflawniadau

Datblygu'r Economi ac adfywio cymunedau

- Ers Mehefin 2024 i ddiwedd Mawrth 2026 mae 3,518 o archebion parcio dros nos wedi'u gwneud drwy safleoedd Arosfan yng Nghaernarfon, Cricieth, Llanberis a Phwllheli. Mae hyn helpu i reoli aros dros nos yn well, lleihau pwysau ar gymunedau lleol a gwella profiad ymwelwyr. Darperir cyfleusterau dŵr ffres, dŵr gwastraff cemegol, ailgylchu a sbwriel cyffredinol yn y safleoedd. Mae'r safleoedd wedi'u lleoli o fewn pellter cerdded i drefi a chyrchfannau allweddol y sir.
- Cynigiwyd grantiau gwerth bron i £300,000 i 69 o sefydliadau cymunedol ar draws Gwynedd i gefnogi gweithgareddau diwylliannol a byw'n iach, gan gynnwys Clybiau Chwaraeon, digwyddiadau diwylliannol a chymunedol, gweithgareddau i blant a phobl ifanc a phrosiectau llesiant. Mae'r prosiect Diwyllesiant yn cefnogi budd a lles cymunedau, amgylchedd a busnesau Gwynedd drwy hybu a datblygu cyfleoedd yn y meysydd blaenoriaeth, sef Diwylliant threftadaeth, Hamdden a chwaraeon ac Economi ymweld gynaliadwy.
- Sicrhawyd £1.3 miliwn o grantiau o gronfeydd Llywodraeth i gefnogi 118 o fusnesau Gwynedd yn 2025/26. Mae'r cymorth, ynghyd â sesiynau galw heibio ac arolwg busnes, wedi helpu mentrau lleol i leihau costau, cynyddu incwm a chael mynediad at wybodaeth a hyfforddiant perthnasol.

DRAFT

- Darparwyd cymorth i 255 o drigolion Gwynedd gael gwaith, a chefnogwyd 130 o drigolion i ennill cyflog gwell, datblygu sgiliau neu oresgyn rhwystrau. Mae hyn yn cynyddu incwm, hyder a sefydlogrwydd i unigolion a theuluoedd ledled y sir.

Diwylliant a Hamdden

- Cofnodwyd bron i 965,000 ymweliad â chanolfannau Byw'n Iach, gan ddangos defnydd a galw cryf am y gwasanaethau.
- Cafwyd dros 1.2 miliwn o ymweliadau ac ymgysylltiadau digidol gyda'r gwasanaeth amgueddfeydd ac orielau. Roedd boddhad cwsmeriaid yn gyson uchel ar draws gwasanaethau diwylliannol, gan gynnwys 95% mewn Amgueddfeydd ac Orielau, 98% mewn Llyfrgelloedd a 95% yn Neuadd Dwyfor.
- Nododd rhwng 97% a 100% o gyfranogwyr eu bod wedi elwa o brosiectau celfyddydol cymunedol a llesiant.
- Denodd Neuadd Dwyfor bron i 20,000 o werthiannau tocynnau a dros £200,000 o incwm, tra gwelwyd cynnydd sylweddol mewn ymweliadau a gweithgareddau mewn lleoliadau diwylliannol eraill.

<u>Astudiaeth Achos - Ceir astudiaethau pellach ar y wefan perfformiad y Cyngor [linc]</u>

Gwaith Gwynedd

Mae'r nifer o bobl sydd eisiau swydd ond yn methu cael yng Ngwynedd yn isel; ond mae mwy na'r arfer o bobl oed gwaith yn ein cymuned sydd heb waith a ddim yn chwilio am swydd.

Gwaith Gwynedd yw enw gwasanaeth Cyngor Gwynedd i helpu ein trigolion oresgyn rhwystrau sy'n eu hatal rhag gweithio neu gael swydd well. Yn ystod 2025/26 fe wnaeth Cyngor Gwynedd sicrhau £1.5 miliwn o fuddsoddiad ar gyfer y maes pwysig yma gan gyflogi tîm o 14 i gynnig help yn uniongyrchol i'n trigolion ac ariannu cymorth pellach gan bartneriaid o fewn ein cymunedau.

Yn sgil yr ymrwymiad a'r gefnogaeth ddwys yma, fe wnaeth 255 o unigolion gael swydd yn ystod y flwyddyn a cwblhaodd 130 arall hyfforddiant fydd yn eu helpu i gael swydd sy'n talu'n well.

Un o fuddiolwyr Gwaith Gwynedd yn 2025/26 oedd Seimon:

Roedd Seimon yn ddigartref, yn cysgu ar y stryd ac heb unrhyw incwm pan gyfeiriodd ei hun i Gwaith Gwynedd ar gyngor y Ganolfan Byd Gwaith. Cefnogwyd Seimon i gael mynediad brys at tîm digartrefedd y Cyngor ac yna, wedi iddo gael llety dros dro, dyma Gwaith Gwynedd yn ei helpu i ymgeisio am swyddi yn lleol ac i'w baratoi ar gyfer cyfweliad. Gyda'n cefnogaeth, o fewn mis, dyma Seimon yn symud o fod yn cysgu allan i fod efo llety a swydd. I wneud yn siŵr fod ei lwyddiant yn gynaliadwy mae Gwaith Gwynedd wedi darparu tocyn bws iddo er mwyn sicrhau ei fod yn gallu teithio i'r gwaith tan iddo dderbyn ei gyflog cyntaf.

Dychwelodd Seimon am gymorth pellach yn dilyn colli ei swydd, sydd ddim yn anarferol gydag unigolyn sydd wedi profi digartrefedd. Mae'n parhau i fyw mewn llety dros dro, ond wedi sicrhau cyflogaeth newydd ac ar hyn o bryd yn aros am ddyddiad cychwyn.

DRAFT

Gwynedd Glyd

Mae Gwynedd Glyd yn canolbwyntio ar helpu pobl i fyw mewn cartrefi addas, fforddiadwy ac o safon yn eu cymunedau. Drwy gynyddu'r cyflenwad o dai, dod â thai gwag yn ôl i ddefnydd, lleihau tlodi tanwydd a chryfhau trefniadau digartrefedd, rydym yn gweithio i wella ansawdd bywyd, iechyd a llesiant trigolion Gwynedd. Byddwn yn ceisio cyflawni hyn drwy osod uchelgais i:

- Sicrhau nad oes neb yn ddigartref yng Ngwynedd.
- Helpu trigolion Gwynedd i fod yn berchen ar gartref fforddiadwy yn eu cymuned.
- Sicrhau bod tai newydd yng Ngwynedd yn amgylcheddol gyfeillgar.
- Sicrhau bod tai Gwynedd yn cael dylanwad cadarnhaol ar iechyd a llesiant trigolion y sir.

Prosiectau

- Cynyddu'r cyflenwad o dai i bobl leol
- Ymdrin â'r argyfwng costau ynni a thlodi tanwydd
- Sicrhau nad oes neb yn ddigartref yng Ngwynedd
- Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr

Diweddariad ar y prosiectau

Cynyddu'r cyflenwad o dai i bobl leol

Mae'r gwaith i gynyddu'r cyflenwad o dai wedi canolbwyntio ar greu mwy o gartrefi i bobl leol a gwneud gwell defnydd o eiddo presennol:

- Datblygwyd 139 o dai cymdeithasol yn ystod flwyddyn, gan ddod i gyfanswm o 506 ers dechrau'r Cynllun Gweithredu Tai (CGT), sy'n rhagori ar y targed o 500. Mae hyn yn cynyddu'r dewis o gartrefi fforddiadwy ac yn helpu mwy o bobl i aros neu ddychwelyd i'w cymunedau lleol.
- Bwriadwyd dod â 28 eiddo gwag yn ôl i ddefnydd trwy'r grantiau tai gwag yn ystod trydedd flwyddyn y Cynllun. Llwyddwyd i ddod â 37 eiddo gwag pellach yn ôl i ddefnydd yn ystod y flwyddyn trwy'r grant, gan ddod â'r cyfanswm i 145 o dai gwag ers dechrau'r CGT.
- Prynwyd 85 eiddo drwy'r Cynllun Prynu Cartref gan helpu 221 o bobl i fyw yn eu cymunedau lleol. Mae hyn yn rhoi cyfle ymarferol i unigolion a theuluoedd gael cartref addas yn agos at eu rhwydweithiau a'u gwasanaethau lleol.
- Gosodwyd targed i brynu 68 o dai oddi ar y farchnad agored drwy'r Cynllun Prynu i Osod erbyn Mawrth 2026, gyda'r dyhead i osod o leiaf 40 ohonynt i denantiaid sydd mewn angen tai. Prynwyd 66, gyda 4 pellach yn y broses cyfreithiol. Gosodwyd 32 o dai, gyda 7 arall yn y broses o'u gosod.
- Mae trafferthion gyda chysylltiad dŵr wedi oedi'r gwaith. Bu rhywfaint o lithriad gyda'r ddau ddatblygiad Tŷ Gwynedd oedd i'w cwblhau yn ystod y flwyddyn 2025/26 sef Dôl Afon Goch yn Llanberis a safle Coed Mawr ym Mangor ond fe'u cwblheir yn ystod 2026/27 ac mae dau ddatblygiad pellach ar y gweill.

Ymdrin â'r argyfwng costau ynni a thlodi tanwydd

Mae'r gwaith ar dlodi tanwydd wedi canolbwyntio ar gefnogi trigolion sy'n wynebu costau ynni uchel ac ar wella effeithlonrwydd cartrefi:

- Cyfeiriwyd bron i 650 o unigolion at ECO4 a Nyth yn 2025/26 gan ragori ar yr uchelgais gwreiddiol o 300. Mae hyn yn helpu trigolion gael mynediad at welliannau ynni sy'n gallu gwneud cartrefi'n gynhesach, yn fwy effeithlon ac yn rhatach i'w rhedeg. Rhwng Hydref 2022 a Mawrth 2026 mae 1158 o dai wedi gweld gwelliant yn eu perfformiad ynni gyda chodiad yn yr EPC (Energy Performance Certificate), gyda 125 wedi cynyddu i A; 824 i B ac 166 i C. Golygai hyn bod gwariant o dros £10 miliwn wedi'i wneud yn y sir ers cychwyn ECO4.
- Dosbarthwyd 309 o dalebau gwerth £11,880 i drigolion mewn angen oedd ar fesuryddion rhag-dalu. Ers dechrau'r cynllun, mae 6,515 o dalebau gwerth £264,773 wedi mynd yn uniongyrchol at drigolion mwyaf bregus y sir, gan roi cymorth uniongyrchol gyda chostau byw hanfodol. Mae hyn wedi cynorthwyo trigolion mwyaf bregus y sir i dderbyn cymorth gyda chostau gwresogi.
- Cyfeiriwyd 67 o drigolion at wasanaethau cymorth fel y banciau bwyd, Age Cymru, Cynnal Gofalwyr, Canllaw, Cyngor Ar Bopeth a chymdeithasau tai. Mae hyn yn sicrhau bod pobl yn cael eu cysylltu â'r gefnogaeth fwyaf addas ar gyfer eu sefyllfa.
- Cynhaliwyd 32 o sesiynau galw mewn ynni ar draws Gwynedd . Mae'r sesiynau hyn yn rhoi cyngor wyneb-yn-wyneb i drigolion ac yn eu helpu i ddeall pa gymorth sydd ar gael i leihau costau ynni.

Sicrhau nad oes neb yn ddigartref yng Ngwynedd

Mae'r gwaith digartrefedd wedi canolbwyntio ar gynyddu opsiynau llety addas a lleihau dibyniaeth ar lety argyfwng:

- Cwblhawyd gwaith uwchraddio ar 35 Ffordd y Coleg, Bangor a mae tenantiaid i symud mewn yn ystod y misoedd nesaf. Mae tenantiaid hefyd wedi symud i 137 Stryd Fawr Bangor, sy'n darparu llety i 12 o unigolion. Mae hyn yn cynyddu'r opsiynau llety lleol ac yn helpu pobl i symud ymlaen o sefyllfaoedd bregus.
- Cynhaliwyd diwrnod agored ar gyfer cynllun Penrallt, Caernarfon a mae'r cais cynllunio yn barod i'w gyflwyno. Bydd y cynllun yn helpu i greu darpariaeth llety ychwanegol ac addas i bobl sydd angen cefnogaeth.
- Mae dibyniaeth ar lety argyfwng costus, anaddas ar gyfer cartrefu pobl digartref yn parhau'n uchel yng Ngwynedd, ond mae'r adran Tai ac Eiddo'n gwneud ymdrechion bwriadol a llwyddiannus i leihau'r ddibyniaeth a chynyddu'r opsiynau llety dros dro ymhellach. Mae'r adran yn edrych am gyfleoedd i brynu adeiladau parod, a phrynwyd 3 adeilad dros y cyfnod diwethaf er mwyn cynyddu'r opsiynau llety dros dro ymhellach – 1 fis Chwefror (Bangor) a 2 fis Mawrth (Caernarfon a Bangor).

Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr

Mae'r gwaith ar ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr wedi canolbwyntio ar reoli effaith y farchnad dai ar gymunedau lleol:

- Cyflwynwyd yr adroddiad Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) i'r Cabinet ym Mehefin 2025, a chafodd ei fabwysiadu i gynorthwyo ymgeiswyr i ddeall a gweithredu polisïau cynllunio perthnasol wrth gyflwyno ceisiadau. Fodd bynnag, yn Chwefror 2026 gwrthododd y Barnwr ganiatáu apêl y Cyngor, gan ddiddymu Cyfarwyddyd Erthygl 4. O ganlyniad, nid yw'r CCA bellach yn weithredol. Er hynny, mae'r Cyngor yn parhau i fod yn ymrwymedig i fynd i'r afael â'r argyfwng tai, gwarchod cymunedau Gwynedd, a sicrhau cyfleoedd teg i drigolion fyw yn y sir.

DRAFT

- Adroddwyd ar ganlyniadau'r gwaith ymchwil i effaith y Premiwm Treth Cyngor o ran unrhyw newid defnydd eiddo i'r Cyngor ar Ragfyr 4ydd 2025. Dangoswyd bod y premiwm wedi gwneud cyfraniad at ddod ag ail gartrefi yn ôl i ddefnydd fel prif breswylfeydd. Cadwyd lefel y Premiwm Treth Cyngor heb ei newid ar gyfer ail gartrefi yn 150% (2025/26) a chynyddu'r Premiwm Treth Cyngor ar eiddo gwag hirdymor i 150% yn 2026/27, o ganlyniad i'r nifer o dai gwag sydd dal yn bodoli. Mae'r arian a gesglir ers cyflwyno'r Premiwm yn 2018/19 wedi cyfrannu at ariannu'r Cynllun Gweithredu Tai, sy'n anelu i adeiladu, prynu neu adnewyddu dros 2,000 o unedau a fydd yn helpu dros 15,000 o drigolion Gwynedd dros oes y Cynllun. Mae hyn wedi arwain at helpu 13,194 o bobl Gwynedd ers cyflwyno'r Premiwm yn 2018/19.

Rhai o'n prif gyflawniadau

- Mae'r grant tai gwag wedi helpu 145 o bobl Gwynedd i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd. Mae'r grant, sydd bellach ar gael i ystod ehangach o brynwyr, yn cefnogi gwaith hanfodol fel gwaith ar doeau, insiwleiddio a systemau gwresogi, gan droi tai segur yn gartrefi addas ac o safon i bobl leol.
- Drwy'r Cynllun Prynu i Osod, prynwyd 66 o dai o'r farchnad agored, gyda 32 eisoes wedi'u gosod ac eraill yn cael eu hadnewyddu neu yn y broses o'u gosod. Mae hyn yn cadw mwy o gartrefi mewn defnydd ac yn cynnig opsiynau rhentu mwy fforddiadwy i bobl ar y gofrestr tai canolraddol.
- Mae'r amser cyfartalog mewn llety wedi aros yn sefydlog dros y flwyddyn diwethaf, a gellir adrodd bod y nifer mewn gwely a brecwast wedi lleihau o'i uchafswm sef 217 yng Ngorffennaf 2025 i 182 ym Mawrth 2026.
- Mae Cynllun Lesu Cymru yn gynllun sy'n rhoi cyfle i landlordiaid a pherchnogion cartrefi gwag lesio eu heiddo i'r awdurdod lleol am gyfnod rhwng 5 ac 20 mlynedd. Mae'r cynllun yn gwarantu incwm rhent misol i berchnogion eiddo a gwasanaeth rheoli eiddo llawn gan yr awdurdod lleol, heb yr angen i dalu comisiwn. Derbyniwyd 53 o ffurflenni mynegi diddordeb i Gynllun Lesu Cymru dros y flwyddyn gan landlordiaid a pherchnogion cartrefi gwag, ac mae sawl eiddo'n mynd drwy'r broses o gael eu hasesu neu drafod camau pellach. Mae 91 o unigolion wedi elwa o'r tai sydd gan y Cyngor ar les, a mae'r gallu i symud aelwydydd o lety argyfwng i lety mwy addas dros dro wedi lleddfu peth o'r pwysau sydd ar y gwasanaeth digartrefedd.
- Mae 13,194 o bobl wedi derbyn cymorth i fyw mewn tŷ lleol trwy gynlluniau'r Cynllun Gweithredu Tai ers ei lansio. Mae'r Cynllun Gweithredu Tai yn cynnwys Llety â chefnogaeth i'r digartref, Tŷ Gwynedd, Cynllun Prynu Cartref a Siop Un Stop.
- Datblygwyd 506 o unedau cymdeithasol drwy'r Cynllun Gweithredu Tai, sy'n rhan o Rhaglen Ddatblygu Tai Cymdeithasol, gyda 299 arall ar y gweill ar y Prif Raglen ar wahanol gamau o'r broses.
- Mae'r Cyngor wedi helpu i ddod â 343 o dai gwag yn ôl i ddefnydd gyda 62 eiddo ychwanegol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn unig.
- Cafodd 97% o osodiadau tai cymdeithasol eu gwneud i bobl â chysylltiad lleol â Gwynedd dros y 12 mis diwethaf, gan sicrhau bod tai'n diwallu anghenion cymunedau lleol.

DRAFT

Astudiaeth Achos - Ceir astudiaethau pellach ar y wefan perfformiad y Cyngor [linc]

Cwpl ifanc lleol yn cael tŷ ym Mhorthmadog trwy'r Cynllun Prynu i Osod

Mae cynllun Cyngor Gwynedd i brynu ac uwchraddio tai er mwyn eu gosod i bobl leol eisoes yn newid bywydau trigolion y sir, gan gynnwys cwpl ifanc ym Mhorthmadog sydd bellach wedi derbyn goriadau i gartref fforddiadwy yn eu cymuned eu hunain.

Ers 2021, mae'r Cyngor wedi bod yn gweithredu'r cynllun Prynu i Osod, sy'n rhan ganolog o Gynllun Gweithredu Tai gwerth £190 miliwn. Y nod yw prynu 100 eiddo trwy'r sir a'u gosod i bobl leol er mwyn mynd i'r afael â phrinder tai rhent fforddiadwy yng Ngwynedd.
Trwy'r cynllun, hyd yma mae:

- 66 eiddo wedi cael eu prynu gan Gyngor Gwynedd
- 32 o'r rhain wedi cael eu gosod i bobl leol
- Y gweddill yn y broses o gael eu hadnewyddu i safonau priodol cyn cael eu gosod.

Mae'r eiddo hyn yn cynnwys tai mewn ardaloedd lle mae llawer iawn o bobl Gwynedd yn cael trafferth dod o hyd i dai fforddiadwy, fel cymunedau Aberdyfi, Llanberis, Cricieth, ac ardal Pen Llŷn.

Mae'r Cyngor yn cydweithio gydag Adra ar y cynllun hwn, gydag Adra yn cymryd cyfrifoldeb am reoli'r eiddo ar ran y Cyngor. Mae'r cartrefi ar gael i unigolion sy'n bodloni meini prawf Tai Teg. I'r rhai sydd â diddordeb, cofrestru gyda Tai Teg yw'r cam cyntaf i wneud cais am un o'r tai.

Un o'r rhai sydd wedi elwa yw Ffion Morris a'i phartner Rhodri, sydd bellach yn byw mewn tŷ drwy'r cynllun ym Mhorthmadog:

"Fel cwpl lleol, un o Benrhyndeudraeth ac un o Borthmadog, roeddem wedi bod yn chwilio am gartref ers tro ond yn cael trafferth dod o hyd i le addas i rentu yn yr ardal.

Mae symud i'n cartref newydd drwy gynllun Prynu i Osod y Cyngor yn teimlo fel breuddwyd ac yn gyfle anhygoel i ni.

Rydym yn gweld dyfodol disglair yma yn ein tŷ newydd ac yn ddiolchgar dros ben i'r Cyngor, Tai Teg ac Adra am ein cefnogi drwy'r broses."

DRAFT

Gwynedd Ofalgar

Mae gofalu am unigolion bregus yn un o'n prif gyfrifoldebau a'n huchelgais yw cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau drwy:

- Ddiogelu plant, pobl ifanc ac oedolion bregus neu sy'n agored i niwed.
- Cefnogi trigolion i gymryd rhan ac ymgysylltu gyda'u cymunedau, ac i leihau tlodi a'i effeithiau.
- Sicrhau bod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn byw bywydau hapus ac yn cyrraedd eu potensial o ran eu haddysg, eu hiechyd a'u lles.
- Sicrhau bod gwybodaeth ar gael i drigolion Gwynedd i'w cynorthwyo i wneud penderfyniadau gwybodus am eu hiechyd a'u lles corfforol a meddyliol.
- Galluogi trigolion Gwynedd i fyw'n annibynnol mewn llety addas a chydag urddas gyhyd ag y bo modd yn eu cymuned.
- Cefnogi gofalwyr di-dâl.
- Darparu gofal a chefnogaeth o safon uchel yn y lle iawn ar yr amser iawn.
- Cefnogi ein cymunedau i sicrhau hygyrchedd ac i ddatblygu i fod yn sir Oed Gyfeillgar.

Prosiectau

- Moderneiddio ein hadnoddau gofal i gwrdd ag anghenion y dyfodol
- Defnyddio mwy ar dechnoleg i wella gallu trigolion Gwynedd i gael mynediad at gefnogaeth a gofal
- Sicrhau bod cefnogaeth amserol a llawn i'w gael i gefnogi pobl i allu byw adref gyda'u teuluoedd
- Cydweithio gyda Gwasanaethau Iechyd i alluogi pobl i fyw eu bywyd gorau yn y gymuned
- Datblygu cyfleon hyfforddi a gwaith ar gyfer unigolion sydd angen cefnogaeth
- Llechen Lân
- Cefnogi Llesiant Pobl
- Cynllun Awtistiaeth
- Datblygu darpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn cartrefi grŵp bychan

Diweddariad ar y prosiectau

Moderneiddio ein hadnoddau gofal i gwrdd ag anghenion y dyfodol

Mae'r gwaith moderneiddio gofal wedi canolbwyntio ar ddatblygu gwasanaethau a llety sy'n addas i anghenion pobl nawr ac yn y dyfodol. Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Blaenoriaeth y Cyngor yw sicrhau bod cartrefi gofal y sir yn cyd-fynd â safonau modern a bod ystod eang o opsiynau llety ar gael i gefnogi unigolion sy'n parhau i allu byw'n annibynnol gydag ychydig o gefnogaeth. Mae achos busnes amlinellol ar gyfer cartref nyrsio a dementia newydd ym Mhenyberth wedi'i gyflwyno i'r Cabinet yn Rhagfyr 2025. Mae'r cynllun yn bartneriaeth rhwng y Cyngor, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chymdeithas Tai ClwydAlyn. Bydd y cynllun yn rhan o gampws iechyd a gofal integredig Penrhos, gan gynnig darpariaeth gofal modern a dwyieithog, fydd gyda 56 o welyau gan gynnwys darpariaeth dementia a nyrsio o safon uchel yn nes at gartref. Mae'r model newydd hwn o ofal nyrsio yn helpu pobl i dderbyn gofal addas yn nes at eu cymunedau.

- Cwblhawyd 2 dŷ gyda chefnogaeth i unigolion gydag anableddau dysgu yn Harlech a Phenrhyndeudraeth. Mae'r Tai â Chefnogaeth yn y Gymuned yn cynnig cartrefi gofal addas a diogel i unigolion ac yn rhoi cyfle iddynt fyw'n annibynnol, gyda'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt.
- Mae gwaith datblygu Tai Gofal Ychwanegol ym Mhwllheli yn parhau. Bydd y cynllun yn helpu pobl i fyw'n annibynnol am gyfnod hirach, gyda chefnogaeth ar gael pan fydd ei angen.
- Cyflwynwyd briff ac achos busnes i'r adran Tai ac Eiddo ar gyfer Tai Gofal Ychwanegol yn ardal Caernarfon. Ond oherwydd yr angen i gadarnhau gwybodaeth ymarferol, mae oedi ar y gwaith o lunio'r amserlen.
- Er ein bod wedi bwriadu comisiynu gwaith yn ystod y flwyddyn i lunio dadansoddiad llawn o gartrefi preswyl mewnol y Cyngor i adnabod y buddsoddiadau sydd eu hangen er mwyn cwrdd â safonau modern, mae'r amserlen wedi llithro. Bwriedir penodi cwmni i ymgymryd a'r gwaith yn fuan.
- Comisiynwyd gwaith ar y cyd â'r Adran Tai ac Eiddo gan Housing LIN i lunio adroddiad yn crynhoi'r galw am lety gofal yng Ngwynedd dros yr 20 mlynedd nesaf. Bydd hyn yn ein galluogi i gynllunio datblygiadau lletya ar gyfer y blynyddoedd nesaf yn seiliedig ar dystiolaeth glir. Disgwylir y bydd y fersiwn terfynol yn barod yn ystod 2026/27.

Defnyddio mwy ar dechnoleg i wella gallu trigolion Gwynedd i gael mynediad at gefnogaeth a gofal

Mae'r gwaith digidol wedi canolbwyntio ar helpu pobl a'u teuluoedd i gael gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth yn haws:

- Mae gwefan Dewis Cymru yn rhannu gwybodaeth am wasanaethau, sefydliadau, mudiadau a digwyddiadau sy'n cefnogi unigolion yn eu cymuned, gyda nifer o'r gwasanaethau yn rhai statudol. Parhawyd i hyrwyddo'r wefan ac i hyfforddi golygyddion i gefnogi'r system i'r dyfodol. Mae hyn yn helpu trigolion ddod o hyd i wybodaeth leol am wasanaethau cymorth a gweithgareddau llesiant.
- Gwelwyd bod nifer o ddefnyddwyr teleofal yn parhau i gynyddu'n raddol, a hynny wrth i unigolion drosglwyddo o wasanaethau gan gymdeithasu tai Adra a Grŵp Cynefin. Mae'r tîm yn parhau i gydweithio'n agos gyda'r cymdeithasau tai er mwyn sicrhau trosglwyddiad llyfn i drigolion. Mae timau gwaith cymdeithasol yn cael eu cefnogi i ddeall a defnyddio dyfeisiadau teleofal er mwyn gallu hyrwyddo'r ddewislen o ddyfeisiadau teleofal i unigolion a theuluoedd. Mae hyn yn galluogi pobl a'u teuluoedd i ofyn am offer drwy wefan y Cyngor, gan helpu mwy o bobl i fwy'n ddiogel ac yn annibynnol gartref. Y nod yw i hyrwyddo annibyniaeth a byw'n dda, gan leihau'r angen am ymyrraeth gofal draddodiadol.
- Mae'r prosiect i drosglwyddo pobl sy'n defnyddio Taliadau Uniongyrchol i'r system cardiau cyflogi newydd wedi wynebu nifer o heriau. Er bod y trefniadau newydd yn galluogi monitro yn agosach a chydweithio gwell gydag unigolion a'u gofalwyr, mae problemau gyda'r darparwr presennol wedi arwain yr adran i ystyried opsiynau amgen er mwyn sicrhau gwell dewis i ddefnyddwyr.

DRAFT

Sicrhau bod cefnogaeth amserol a llawn i'w gael i gefnogi pobl i allu byw adref gyda'u teuluoedd

Mae'r gwaith hwn wedi canolbwyntio ar sicrhau bod cefnogaeth i unigolion a gofalwyr yn fwy amserol, clir a chydlynol:

- Mae'r Cyngor yn annog pobl sydd â chyflyrau meddygol neu sy'n fregus i fod yn rhan o gynllun cenedlaethol a allai arbed amser hanfodol mewn argyfwng. Wrth gydweithio â phartneriaid lleol, mae'r Cyngor yn hyrwyddo'r y cynllun 'Neges mewn Potel', sef ffordd o gadw manylion personol a meddygol allweddol lle mae'r gwasanaethau brys yn gwybod i edrych amdano mewn argyfwng. Mae'n cynnwys ffurflen i gofnodi manylion megis alergeddau, cyflyrau iechyd, meddyginiaeth, a chysylltiadau brys, a gedwir yn ddiogel mewn potel fach â chroes werdd arni yn yr oergell. Rhoddir sticeri a chroes werdd i'w harddangos yn y cartref, gan dynnu sylw'r gwasanaethau brys at bresenoldeb y botel. Mae hyn yn rhoi tawelwch meddwl i deuluoedd ac yn helpu gwasanaethau i ymateb yn gyflymach pan fo angen.
- Er bod rhestrau aros am ofal cartref wedi aros yn gymharol debyg, mae'r gwaith ar weithredu'r rhaglen waith wedi bod yn mynd rhagddo'n gyson a mae'r nifer sy'n disgwyl dros 91 diwrnod am ofal cartref wedi lleihau. Mae'r gwaith yn parhau i hybu cydweithio agosach rhwng y timau gwaith cymdeithasol a'r darparwr.
- Yn ystod y flwyddyn, sefydlwyd Tîm Gwasanaethau Hybu Annibyniaeth newydd er mwyn dod â meysydd taliadau uniongyrchol, teleofal, technoleg gynorthwyol, deallusrwydd artiffisial (AI) a datblygu cwmnïau micro ynghyd. Nod y gwaith yw sicrhau bod unigolion yn cael y gefnogaeth, y dechnoleg a'r dewisiadau sydd eu hangen i fyw mor annibynnol â phosibl, yn unol â'u dymuniadau a'u hamgylchiadau.

Cydweithio gyda Gwasanaethau Iechyd i alluogi pobl i fyw eu bywyd gorau yn y gymuned

Mae cydweithio â gwasanaethau iechyd wedi parhau er mwyn cefnogi pobl i fyw ei bywyd gorau yn y gymuned:

- Mae'r adran Oedolion yn parhau i dreialu rôl Ymarferydd Gwaith Cymdeithasol sydd wedi'i leoli gyda Chydlynwyr Rhyddhau Ysbyty er mwyn hwyluso rhyddhau cleifion ac atal cyfeiriadau anaddas rhag cyrraedd y timau adnoddau cymunedol. Mae hyn yn caniatáu mynediad at y wybodaeth a'r arbenigedd gofal lleol er mwyn sicrhau'r gefnogaeth fwyaf priodol yn y gymuned y mae'r claf yn byw ynddi. Mae'r canlyniadau yn galonogol a dengys y data perfformiad bod cynnydd yn y nifer o asesiadau sy'n cael eu cynnal.
- Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn hyrwyddo llesiant unigolion yn llawn, mae timau adnoddau cymunedol lleol bellach yn gweithio ar sail is-ardaloedd, gan gymryd mwy o berchnogaeth dros becynnau gofal lleol. Mae hyn yn gwella trosolwg o anghenion pobl ac yn helpu i ddarparu gofal mwy cydlynol.
  Drwy wneud defnydd mwy effeithiol o gefnogaeth y drydedd sector, mae'n galluogi'r Cyngor i ddarparu cefnogaeth amgen er mwyn hyrwyddo byw'n dda ac adnabod anghenion yn gynnar. Disgwylir y bydd hyn yn lleihau pwysau ar wasanaethau statudol ac yn galluogi'r Cyngor i ganolbwyntio'i adnoddau ar y sawl sydd ei angen fwyaf. Cynhaliwyd adolygiad o gomisiynu gwasanaethau 3ydd sector, a byddwn yn parhau i gydweithio gyda Mantell Gwynedd.
- Darpara Dementia Actif Gwynedd weithgareddau, gwybodaeth a chefnogaeth i unigolion sy'n byw gyda dementia a'u teuluoedd. Helpa'r gwasanaeth bobl i gadw'n weithgar, yn gysylltiedig â'u cymunedau ac i gael mynediad at gymorth ar ôl

DRAFT

diagnosis gan leihau unigedd a chefnogi llesiant a hyder unigolion a gofalwyr. Mae'r effaith wedi bod yn sylweddol a gwelwyd cynnydd unwaith eto yn y nifer sy'n gwneud cyswllt â'r gwasanaeth: ym Mawrth 2026, mynychodd 305 o unigolion, 55 yn byw gyda dementia, 61 yn ofalwyr di-dâl, a 189 arall yn elwa'n gymdeithasol. Dengys hyn werth Dementia Actif wrth gynorthwyo unigolion i fyw'n annibynnol ac i gefnogi gofalwyr.

Datblygu cyfleoedd hyfforddi a gwaith ar gyfer unigolion sydd angen cefnogaeth
Mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar gynyddu cyfleoedd gwaith a hyfforddiant i unigolion sydd angen cefnogaeth ychwanegol:

- Mae gwaith o godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd gwaith i bobl ag anableddau dysgu o fewn y Cyngor yn dechrau dwyn ffrwyth. Mae mwy o unigolion bellach wedi'u cyflogi, a mae trafodaethau'n parhau gyda gwasanaethau eraill i ehangu'r cyfleoedd hyn. Mae hyn yn helpu pobl i ddatblygu sgiliau, hyder ac annibyniaeth. Erbyn diwedd 2025/26 roedd 134 o unigolion yn rhan o'r cynllun, gyda 60 o'r rhain mewn gwaith cyflogedig a'r gweddill yn gwirfoddoli. Mae'r cyfleoedd hyn yn bwysig iawn o ran safbwynt llesiant ac ymdeimlad o gyflawni i'r unigolyn, gan hefyd hyrwyddo annibyniaeth a rhoi cyfle i wneud ag eraill o fewn y gymuned ac o ganlyniad yn lleihau'r galw am wasanaethau gofal.
- Mae'r gwaith Anabledd Dysgu: Ehangu Cyfleoedd Gwaith wedi ennill cydnabyddiaeth genedlaethol, gyda'r tîm yn cael ei wahodd i gyflwyno yng nghynhadledd IMPACT 'Gwella Gofal Oedolion Gyda'n Gilydd; yng Nghaerdydd. Roedd hyn yn gyfle i rannu arfer da Gwynedd, gan arddangos y dull arloesol o gefnogi pobl ag anableddau dysgu mewn i waith ystyrlon, a chryfhau proffil y sir fel arweinydd yn y maes.
- Mae'r gwaith wedi cychwyn ar ddatblygu strategaeth cyfleon cymunedol gyda phartneriaid yr adran ar gyfer anableddau dysgu yng Ngwynedd. Bydd y gwaith yn parhau yn 2026/27 ochr yn ochr ag ail-lunio'r Cynllun Llwybrau Llesiant. Parhawyd i ariannu'r gwasanaeth cefnogi cyflogaeth hyd at Fawrth 2027 ond rydym eto i ddatrys sut bydd y gwasanaeth yn cael ei ariannu yn barhaol i'r dyfodol.

Llechen Lân
Mae'r gwaith Llechan Lân wedi canolbwyntio ar ddod â gwaith yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ynghyd mewn ffordd fwy clir a chydlynol:

- Bwriedir creu un cynllun ar gyfer dod â holl waith yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ynghyd er mwyn symleiddio'r ffrydiau gwaith. Wrth baratoi dadansoddiad o ddemograffeg Gwynedd; y galw am wasanaeth ac arferion gorau gwasanaethau cymdeithasol oedolion, byddwn yn deall ac yn amlygu'n well y galw am wasanaeth a'r adnoddau cysylltiedig fydd eu hangen ar gyfer yr ugain mlynedd nesaf.

Cefnogi Llesiant Pobl
Mae gwaith cefnogi llesiant wedi canolbwyntio ar sicrhau bod cefnogaeth leol ar gael i drigolion sy'n wynebu caledi, unigedd neu bwysau costau byw :

- Mae'r Cyngor yn cefnogi rhwydweithiau o Hybiau Cymunedol, ac maent ar waith ymhob un o'r 13 ardal ar draws y Sir. Mae'r hybiau yn rhoi help o ran gwybodaeth am bethau fel bwyd, ynni ac arian, yn ogystal â gweithgareddau a gwasanaethau yng nghymunedau'r trigolion.

- Mae'r Hwylusydd Lles wedi sefydlu rhaglen o sesiynau galw heibio mewn llyfrgelloedd lleol a digwyddiadau partneriaeth i godi ymwybyddiaeth o gymorth costau byw a gwasanaethau cefnogi sydd ar gael. Mae hyn yn ei gwneud yn haws i bobl gael cyngor a chefnogaeth yn agos at eu cartrefi.
- Mae grantiau gwerth £217,743 wedi eu dyrannu i grwpiau cymunedol a banciau bwyd i gryfhau cefnogaeth lleol i drigolion. Mae'r Cynllun Bwyd yn cynnwys sefydlu cronfa grant ar gyfer cynlluniau bwyd a bwydo gan grwpiau cymunedol, cyrsiau coginio yn y gymuned ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd a chreu gerddi a rhandiroedd cymunedol.
- Fel rhan o gryfhau'r gefnogaeth a gynigir i drigolion, mae'r Cyngor wedi dechrau cyflwyno hyfforddiant Money Guiders i staff rheng flaen i ddatblygu sgiliau cefnogi trigolion gyda materion ariannol a chyllidebu. Mae'r hyfforddiant yn dod mewn tair lefel, ac yn anelu at roi'r sgiliau a'r hyder i staff gefnogi unigolion gyda materion ariannol mewn ffordd sensitif ac effeithiol. Mae staff mewn llyfrgelloedd, Siopau Gwynedd a Galw Gwynedd eisoes wedi dechrau mynychu'r hyfforddiant, gan symud tuag at ddarparu cymorth mwy cynhwysfawr yn hytrach na dull trafodol yn unig.
- Drwy Brosiect Gwydnwch Cymunedol, mae'r Cyngor yn parhau i weithio â Chyngor ar Bopeth ac Advice Mid Wales er mwyn cryfhau'r gefnogaeth a'r cyngor ariannol sydd ar gael i bobl yn lleol. Mae hyn yn cynnwys cefnogi unigolion i lenwi ffurflenni cais ariannol cenedlaethol. Daw hyn â chyngor arbenigol yn nes at bobl sydd angen cymorth a rhoddir cefnogaeth rhifedd a chyllidebu i drigolion Gwynedd.
- Fel rhan o'n hymdrechion i fynd i'r afael â than-hawlio, cynhaliwyd ymgyrchoedd Credyd Pensiwn yn ystod 2025/26, gan dargedu 167 o drigolion a nodwyd fel rhai cymwys ond nad oeddent yn hawlio'r budd-dal. Gall hyn olygu hyd at £23,199 yn ychwanegol y flwyddyn i drigolion, neu tua £209,874 dros oes gyfartalog rhywun sy'n ei hawlio.
- Mae'r tariff cymdeithasol yn cynnig 'cap' ar filiau i aelwydydd ar incwm is neu mewn amgylchiadau bregus, gan helpu i leihau pwysau costau byw hanfodol. Ym mis Medi 2025 nodwyd bod 2,607 o drigolion Gwynedd yn hawlio tariff cymdeithasol HelpU Dŵr Cymru. Fodd bynnag, gall hyd at 5,400 o drigolion fod yn gymwys i'r cymorth hwn, ond nad ydynt yn ei hawlio ar hyn o bryd. Mae'r Cyngor yn falch o gydweithio â Dŵr Cymru i hyrwyddo'r cynllun hwn ac i sicrhau bod mwy o drigolion yn ymwybodol o'u hawl ac yn cael y cymorth y maent ei haeddu.
- Dosbarthwyd 26,368 o becynnau bwyd gan sicrhau cymorth brys a hanfodol i filoedd o aelwydydd ar adeg o bwysau ariannol.
- Yn ystod 2025/26 cefnogwyd 41 o grwpiau cymunedol drwy'r Grant Argyfwng Bwyd gyda swm o £150,335 yn mynd tuag at Fanciau Bwyd, Pantris Bwyd, Clybiau Swper a Chinio a Phecynnau Bwyd mewn cymunedau.
- Mae Budd-dal Tai yn parhau i fod yn ffynhonnell gymorth hanfodol i drigolion Gwynedd, gyda 2,557 o ddinasyddion yn ei dderbyn yn ystod 2025/26, ar werth cyfanswm o £11,779,117.
- Mae'r gwasanaeth Budd-daliadau yn gweinyddu'r Gronfa Taliadau Tai Dewisol (DHP) sy'n darparu cymorth ariannol ychwanegol i'r rhai sy'n wynebu anawsterau tai. Yn ystod 2025/26 roedd 1,105 o deuluoedd wedi derbyn cymorth drwy gronfa DHP gyda gwerth o £451,296.
- Mae nifer fawr o leoliadau Croeso Cynnes yng Ngwynedd yn parhau i dyfu o nerth i nerth. Yn ystod 2025/26, cofrestrwyd 67 lleoliad newydd ar y map Croeso Cynnes, ac

fe ddyrannwyd £49,045 mewn grantiau i gefnogi amrywiaeth o leoliadau. Mae'r cynllun yn cynnig mannau cynnes, croesawgar ledled y sir lle gall pobl alw heibio i gael paned a sgwrs, cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol, neu gael tamaid o fwyd, gan helpu i leihau unigrwydd a chryfhau cysylltiadau cymunedol.

- Mae gwefan Costau Byw y Cyngor wedi derbyn defnydd sylweddol, gan gynnwys 495 ymweliad i dudalen cymorth ynni, 544 ymweliad i dudalen hybiau cymunedol a 412 i dudalen am wybodaeth am gadw'n gynnes.
- Mae'r ymgyrch Paratoi at y Gaeaf wedi denu tua 1,900 o ymwelwyr i'r dudalen wybodaeth ar y wefan ers fis Medi 2025. Argraffwyd hefyd lyfryn penodol i gyd-fynd, gan eu dosbarthu i feddygfeydd, hybiau cymunedol, llyfrgelloedd ac amrywiol leoliadau cymunedol a phartneriaid.

Cynllun Awtistiaeth

Mae'r Cynllun Awtistiaeth wedi parhau i gryfhau dealltwriaeth, cefnogaeth ac adnoddau i bobl niwroamrywiol, eu teuluoedd a'r gweithlu:

- Mae 2163 o weithwyr Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cwblhau hyfforddiant lefel 1 a 2 Awtistiaeth, gyda hyfforddiant pellach ar waith mewn meysydd fel gwaith cymdeithasol drwy lens niwro-gadarnhaol yn y gweithle. Mae hyn yn gwella dealltwriaeth staff ac yn helpu i ddarparu cefnogaeth fwy addas i bobl niwroamrywiol. Mae'r tîm hefyd yn hyfforddi gweithwyr i hwyluso a rhedeg grwpiau a rhaglenni cefnogi ac addysgol i rieni a gofalwyr, yn ogystal â hunaniaeth i bobl ifanc awtistig.
- Mae rhaglen Hyfforddi'r Hyfforddwr Cygnet yn rhedeg yn chwarterol, a mae rhaglen cefnogi rhieni drwy'r Gymraeg wedi'i ddatblygu yn fewnol sy'n adlewyrchu llais rhieni/gofalwyr, ymchwil cyfredol gydag ethos a dull niwro-gadarnhaol. Rhoddir cefnogaeth mwy perthnasol, hygyrch ac ymatebol i rieni a gofalwyr.

Datblygu darpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn cartrefi grŵp bychan

Mae'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar ddarparu lleoliadau lleol, sefydlog a chartrefol i blant mewn gofal:

- Mae'r cynllun datblygu darpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn cartref grŵp bychan wedi datblygu'n sylweddol erbyn hyn. Mae'r cartref sydd wedi'i leoli ym Morfa Bychan yn weithredol gyda dau blentyn yn byw yno ers 2025, a mae'r tŷ wedi derbyn cofrestriad gan Arolygiaeth Gofal Cymru. Mae sicrhau eu bod yn derbyn gofal yng Ngwynedd yn caniatáu iddynt fynychu ysgolion lleol a chymryd rhan gyflawn ym mywyd eu cymunedau. Er bod gwaith adnewyddu a chofrestru'n parhau, mae'r tŷ yn Neiniolen bellach yn weithredol gyda dau blentyn yn byw yno, gan gynyddu'r ddarpariaeth leol i blant mewn gofal.
- Mae gwaith adnewyddu'r tŷ preswyl i blant yn Edern yn parhau, ac nid oes plant yn byw yno eto. Mae'r adran Plant a Theuluoedd yn gweithio ar gais cofrestriad Arolygiaeth Gofal Cymru ar hyn o bryd er mwyn sicrhau bod y cais yn barod unwaith bydd staff y tŷ wedi'u penodi.

Rhai o'n prif gyflawniadau:

- Cyflwynwyd technoleg RoboPet i rai aelodau o'r gymuned o fewn gwasanaeth Pobl Hŷn ac Anabledd Corff a'r gwasanaeth Anableddau Dysgu, a hynny ar ffurf anifail

anwes. Gall y dechnoleg syml hon helpu i leihau unigrwydd, lleihau gor-bryder, cynnig cysur a chysylltiad ar sail dyddiol a gwella llesiant pobl sy'n byw ar eu pen eu hunain.

- Datblygwyd a lansiwyd yr Ap Niwro Cymru dwyieithog gan Awtistiaeth Gwynedd i gefnogi plant a phobl ifanc ac oedolion niwrowahanol, eu teuluoedd a gweithwyr proffesiynol. Mae'r Ap yn cynnig gwybodaeth glir a dibynadwy, gweithgareddau hwyliog a lleddfol, mannau digwyddiadau lleol a chymorth yn ogystal ag adnoddau eraill. Drwy drafod a phobl ifanc Gwynedd a'u teuluoedd, defnyddiwyd eu syniadau i greu cynnwys, nodweddion allweddol a dyluniad logo'r Ap.
- Roedd cyfanswm o 293 o blant mewn gofal yng Ngwynedd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, a dros y flwyddyn diwethaf, mae 7% ohonynt wedi gadael gofal ac wedi dychwelyd adref. Cynhaliwyd 96% o gynadleddau achos ble roedd llais neu farn plentyn dros 5 oed wedi'i glywed. A mae 100% o asesiadau bellach wedi'u cwblhau gan ddefnyddio iaith plentyn. Mae hyn yn dangos bod llais y plentyn yn cael lle mwy canolog mewn penderfyniadau.
- O fewn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, gostyngodd y nifer o bobl ifanc a ddaeth mewn i'r gwasanaeth am y tro cyntaf i 20, sef gostyngiad o 17%. Mae hyn yn cael ei groesawu o ystyried yr ymdrechion a wnaed gan y gwasanaeth a'r Bwrdd Rheoli yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Mae'n adlewyrchu gwaith atal a chefnogi sy'n helpu pobl ifanc i osgoi cysylltiad pellach â'r system gyfiawnder.
- Cynhaliwyd 39 sesiwn Hwyl yn ystod 2025/26, gydag 1,142 o blant yn mynychu. Yn ogystal, mynychodd 706 o blant a 323 o rieni 34 sesiwn y Trelar Chwarae yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd chwarae, cymdeithasu a chefnogaeth i blant a theuluoedd ar draws y sir.
- Sicrhawyd arian ychwanegol i gefnogi gwasanaethau Plant a Theuluoedd, gan gynnwys swyddi gweithredol, gwasanaeth preswyl, lleoliadau all-sirol, taliadau uniongyrchol a gweithwyr cefnogol Derwen. Mae hyn yn helpu i gynnal gwasanaethau mwy sefydlog ac ymatebol i blant a theuluoedd Gwynedd.
- Mae'r Tîm Ôl Ofal yn parhau i adnabod cyfleoedd i bobl ifanc ddod at ei gilydd, i gymdeithasu a chael cefnogaeth ychwanegol. Yn ystod mis Mai rhoddwyd cyfle i rai sy'n rieni ifanc ddod at ei gilydd yng nghwmni unigolyn o'r Academi Gofal i drafod y cyfleoedd sydd ar gael iddynt o fewn y maes gofal yng Ngwynedd.
- Cynhaliwyd 150 o ddigwyddiadau gyrfa i hyrwyddo'r Academi Gofal, a threfnwyd 110 cyfnod profiad gwaith. Penodwyd 6 hyfforddai Academi Gofal Gwynedd newydd ym mis Chwefror 2026, sy'n dod â nifer hyfforddeion yr Academi i 11. Derbyniwyd 51 cais ar gyfer y cyfle hwn. Bydd hyn yn cynyddu'r gweithlu gan helpu i ymateb i heriau recriwtio drwy ddatblygu talent leol.
- Cynnydd o 72% yn nifer o ddilynwyr gwasanaeth Teulu Gwynedd ar y cyfryngau cymdeithasol yn dilyn ail-frandio ac ail strwythuro'r tîm i gael mwy o swyddogion yn gweithredu ar yr elfen marchnata ac ymgysylltu.
- Mae 'Y Ffordd Gywir' gan Swyddfa'r Comisiynydd Plant wedi'i fabwysiadu fel y prif fframwaith cenedlaethol, gan ganolbwyntio ar wreiddio hawliau plant (UNCRC) ym mhob agwedd o bolisi, cynllunio a gwasanaethau. Ym mis Chwefror 2026, cynhaliwyd gweithdy 'Y Ffordd Gywir' ar gyfer Aelodau'r Cabinet, Cadeiryddion Craffu, yr Uwch Dîm Reoli a'r Fforwm Ieuenctid gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth a chryfhau dealltwriaeth o'r egwyddorion.

DRAFT

Astudiaeth Achos - Ceir astudiaethau pellach ar y wefan perfformiad y Cyngor [linc]

Tîm o Amgylch y Teulu

Cyfeiriwyd person ifanc at wasanaethau cymorth yn dilyn pryderon am ei ymddygiad yn y gymuned, lle'r oedd eisoes wedi derbyn dau gerdyn melyn ac mewn perygl o fynd i drafferthion pellach. Roedd hefyd yn wynebu heriau addysgol sylweddol oherwydd anghenion dysgu ychwanegol nad oeddent wedi'u deall yn llawn, gyda risg o gael ei wahardd o'r ysgol. O ganlyniad, roedd tensiynau a gwrthdaro yn y cartref yn cynyddu, gan effeithio ar lesiant y teulu cyfan.

Darparwyd cefnogaeth drwy benodi Cydlynydd Tîm o Amgylch y Teulu i asesu anghenion y teulu a chydlynu gwasanaethau. Cynhaliwyd ystod eang o ymyriadau, gan gynnwys cefnogaeth rhianta, sesiynau cwnsela awyr agored, cymorth i wella cyfathrebu rhwng y rhieni, a chymorth addysgol drwy Rhwyd Arall. Cafodd aelodau eraill y teulu fynediad at wasanaethau cymorth ychwanegol hefyd.

Erbyn diwedd yr ymyrraeth, roedd y person ifanc yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd am dri diwrnod yr wythnos ac yn ymgysylltu'n dda â'i addysg. Roedd dealltwriaeth llawer gwell o'i anghenion wedi arwain at gefnogaeth fwy addas, tra bod tensiynau teuluol wedi lleihau'n sylweddol. Nododd y fam welliant yn ei hiechyd meddwl a'i pherthynas â'i phlentyn, ac roedd y teulu'n teimlo'n gryfach ac yn fwy sefydlog. Cafodd yr effaith gadarnhaol hon ei chadarnhau drwy adborth y teulu, gwell presenoldeb ysgol a mesurau asesu a oedd yn dangos cynnydd clir.

DRAFT

Gwynedd Gymraeg

Fel arweinydd cenedlaethol byddwn yn hybu ffyniant y Gymraeg ym mhob rhan o'r sir. Ein huchelgais yw:

- Sicrhau bod pob plentyn yng Ngwynedd yn gallu defnyddio'r Gymraeg yn hyderus yn yr ysgol ac yn gymdeithasol.
- Hybu ffyniant y Gymraeg ym mhob rhan o'r sir a sicrhau bod cyfleoedd digonol i bawb allu defnyddio'r Gymraeg yn naturiol yn eu cymunedau.
- Cydweithio gyda'n partneriaid i hwyluso'r gallu i drigolion Gwynedd gael mynediad at holl wasanaethau cyhoeddus drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Sicrhau bod hybu'r Gymraeg yn rhan allweddol o holl waith y Cyngor, ac unrhyw gynlluniau sydd yn effeithio ar bobl Gwynedd.
- Cefnogi ymdrechion i greu siaradwyr newydd o bob oed.
- Sicrhau mynediad at wybodaeth a chyfleusterau hamdden, diwylliannol a chelfyddydol o safon.

Prosiectau

- Moderneiddio ac ehangu'r ddarpariaeth drochi ar gyfer dysgu Cymraeg i blant
- Hybu defnydd o'r Gymraeg gan drigolion Gwynedd
- Adolygu Polisi Iaith Addysg Gwynedd ynghyd â chynnal gwerthusiad o'r Gyfundrefn Drochi er mwyn sicrhau bod yr holl bolisïau a gwasanaethau addysg a ddarperir i blant a phobl ifanc yng Ngwynedd yn gosod sylfaen gadarn i'r Gymraeg

Diweddariad ar y prosiectau

Moderneiddio ac ehangu'r ddarpariaeth drochi ar gyfer dysgu Cymraeg i blant

Mae'r gwaith moderneiddio'r gyfundrefn drochi wedi canolbwyntio ar wella'r adnoddau sydd ar gael i blant, athrawon ac ysgolion, a rhannu arferion da yn ehangach:

- Lansiwyd gwefan newydd, sy'n cynnwys blogiau wythnosol ac adnoddau. Mae'r adnoddau hefyd wedi'u rhannu ag ysgolion drwy HWB, ynghyd ag adnoddau ychwanegol ar gais. Mae hyn yn rhoi mynediad haws i ysgolion at ddeunyddiau o ansawdd uchel, gan gefnogi mwy o blant i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg, magu hyder yn y Gymraeg a chyfranogi'n llawn ym mywyd yr ysgol a'u cymunedau.
- Cynhaliwyd hyfforddiant ar yr egwyddorion addysg drochi i ddarpar athrawon ym Mhrifysgol Bangor ym mis Hydref 2025, gyda rhai yn ymweld â chanolfannau trochi i arsylwi'r gwaith yn uniongyrchol. Mae hyn yn helpu i ddatblygu gweithlu addysg medrus a hyderus sy'n gallu cefnogi plant i gaffael y Gymraeg yn effeithiol, gan sicrhau profiad dysgu o safon uchel i ddysgwyr newydd i'r iaith.
- Mae'r gwaith hwn yn ehangu'r cyfleodd sydd ar gael i blant a phobl ifanc Gwynedd ddatblygu sgiliau Cymraeg a ffynnu mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Mae hefyd yn cefnogi teuluoedd sy'n newydd i'r Gymraeg drwy sicrhau bod cefnogaeth a darpariaeth briodol ar gael, gan gyfrannu ar nod y Cyngor o gryfhau'r Gymraeg a chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sir dros y tymor hir.
- Mae'r Gyfundrefn Drochi wedi datblygu unedau gwaith sy'n addas i'w defnyddio mewn ysgolion i gefnogi disgyblion sy'n dilyn cwrs Agored Cymru – Sgiliau Byd Gwaith. Maent wedi sicrhau bod cefnogaeth ieithyddol wedi'i gynnwys o fewn yr unedau fel bod modd i ddisgyblion sy'n hwyrach yn dod at y Gymraeg gael mynediad

DRAFT

at y gwaith. Trafodwyd yr angen i ddatblygu'r unedau gydag Agored Cymru er mwyn sicrhau bod y gwaith yn diwallu gofynion y fframwaith ac yn ddefnyddiol i ysgolion sydd eisoes yn cynnig Sgiliau Byd Gwaith fel rhan o'u cynnig cwricwlaidd.

Hybu defnydd o'r Gymraeg gan drigolion Gwynedd

Mae'r gwaith hwn wedi canolbwyntio ar gynyddu cyfleoedd ymarferol i bobl ddefnyddio'r Gymraeg mewn busnesau, gweithleoedd a chymunedau:

- Cydweithiwyd â Menter Iaith Gwynedd a'r Tîm Cefnogi Busnes i annog busnesau i ddefnyddio mwy o Gymraeg gyda chwsmeriaid. Targedwyd tua 200 o fusnesau yn Nolgellau, Blaenau Ffestiniog, Penrhyndeudraeth, Tywyn a Bro Peris i arddangos poster yn nodi eu bod yn hapus i siarad Cymraeg a chefnogi siaradwyr newydd. Mae hyn yn ei gwneud yn haws i drigolion a dysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg wrth siopa a derbyn gwasanaethau yn lleol.
- Derbyniwyd sêl bendith y Cabinet i fabwysiadu Twf – Siarter y Gymraeg yn y Gwaith mewn partneriaeth â Chyngres Undebau Llafur Cymru ac undebau lleol. Mae hyn yn atgyfnerthu safle'r Cyngor fel sefydliad sy'n arwain y ffordd o ran meithrin diwylliant sy'n rhoi'r Gymraeg yn ganolog i'w waith, gan fod y gweithle cyntaf yng Nghymru i lofnodi a mabwysiadu'r Siarter. Bydd y Siarter yn cefnogi gweithwyr, undebau llafur a chyflogwyr i greu gweithleoedd dwyieithog ac i gynyddu defnydd naturiol y Gymraeg yn y gwaith.
- Cychwynnwyd ar y gwaith o sefydlu Bwrdd Prosiect y Gymraeg i roi trosolwg strategol gwell o'r gwaith sy'n digwydd ar draws adrannau'r Cyngor. Bydd hyn yn helpu i gytuno ar flaenoriaethau cliriach ar gyfer hybu'r Gymraeg yn y dyfodol.
- Sefydlwyd yr Is-Grŵp Pobl Ifanc Fforwm Iaith Gwynedd a chynhaliwyd ymgynghoriad gyda phobl ifanc 16-18 oed sy'n byw neu'n gweithio yng Ngwynedd ynghylch eu defnydd o'r Gymraeg. Cafwyd 200 o ymatebion gan amlygu'r angen i gryfhau hyder pobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg, yn enwedig yn ysgrifenedig ac ar gyfryngau cymdeithasol.

Adolygu Polisi Iaith Addysg Gwynedd ynghyd â chynnal gwerthusiad o'r Gyfundrefn Drochi er mwyn sicrhau bod yr holl bolisïau a gwasanaethau addysg a ddarperir i blant a phobl ifanc yng Ngwynedd yn gosod sylfaen gadarn i'r Gymraeg

Mae'r gwaith hwn wedi canolbwyntio ar sicrhau bod polisïau a gwasanaethau addysg Gwynedd yn gosod sylfaen gref i'r Gymraeg o'r blynyddoedd cynnar hyd at ddiwedd addysg statudol:

- Mabwysiadwyd Polisi Iaith Addysg Enghreifftiol Gwynedd i gryfhau addysg Gymraeg a chefnogi ysgolion i ymateb i ofynion deddfwriaethol newydd. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod plant a phobl ifanc ledled y sir yn cael profiad addysgol cyson sy'n datblygu eu sgiliau Cymraeg a'u hyder i ddefnyddio'r iaith yn yr ysgol, yn y gymuned ac yn y gweithle yn y dyfodol.
- Mae'r polisi i Wynedd ac yn adlewyrchu Gwynedd, ei gwerthoedd, ei huchelgais, ei hanghenion ac anghenion plant a phobl ifanc y sir.
- Cwblhawyd yr adroddiad ar y Gwerthusiad Drochi gan Brifysgol Bangor a oedd yn adolygu trefniadau ymarferol y cwrs 10 wythnos a grymuso'r ddarpariaeth ôl ofal, a'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ym mis Hydref 2025 lle cafodd ei dderbyn. Mae'r gwaith ymchwil yn nodi cryfderau amlwg ac yn cynnig pedwar argymhelliad i ddatblygu'r ddarpariaeth ymhellach. Mae'r gwaith hwn yn helpu i

DRAFT

sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yng Ngwynedd, beth bynnag fo'u cefndir ieithyddol, yn cael cyfle i ddatblygu sgiliau Cymraeg cryf a manteisio ar fuddion addysg Gymraeg.

Rhai o'n prif gyflawniadau

- Cyflwynwyd drafft o'r Polisi Iaith Addysg Enghreifftiol i'r Cabinet, cyn cynnal ymgysylltiad cyhoeddus ac wedyn mabwysiadu'r Polisi fel model ar gyfer ysgolion Gwynedd. Mae hyn yn rhoi cyfeiriad clir a chyson i ysgolion wrth weithredu gofynion newydd Deddf y Gymraeg ac Addysg (2025).
- Datblygwyd canllawiau, sesiynau gwybodaeth a rhaglen gefnogi ar gyfer penaethiaid, llywodraethwyr ac ysgolion er mwyn cefnogi gweithrediad cyson y Polisi Iaith ar draws y sir.
- Lansiwyd gwefan newydd y Gyfundrefn Dorchi, gan ddarparu adnoddau, blogiau ac offer cefnogol i ysgolion, staff a dysgwyr ledled Gwynedd.
- Datblygwyd ac adnewyddwyd adnoddau trochi ar gyfer ysgolion a siaradwyr newydd gan gynnwys deunyddiau ar HWB ac unedau gwaith newydd ar gyfer dysgwyr hŷn.
- Darparwyd hyfforddiant i ddarpar athrawon a staff dysgu ar egwyddorion addysg drochi, gan gryfhau arbenigedd y gweithlu a chefnogi ansawdd y ddarpariaeth i ddysgwyr newydd i'r Gymraeg.
- Cafodd ansawdd y ddarpariaeth drochi ei gydnabod yn gadarnhaol gan Estyn, a nododd fod y ddarpariaeth yn hynod werthfawr wrth gefnogi disgyblion newydd-ddyfodiaid i gaffael y Gymraeg a llwyddo mewn addysg cyfrwng Cymraeg.
- Cydweithiodd Menter Iaith Gwynedd â Sesiwn Fawr Dolgellau i gynnal digwyddiad hwiangerddi i rieni a phlant. Cynhyrchwyd rhestr chwarae broffesiynol er mwyn i deuluoedd allu parhau i wrando a chyd-ganu gartref, gan helpu i gyflwyno'r Gymraeg i blant bach mewn ffordd naturiol a hwyliog.
- Darparwyd gweithgareddau cymunedol a sesiynau sgwrsio i ddysgwyr ymhob ardal llesiant yng Ngwynedd. Mae hyn wedi rhoi cyfleoedd anffurfiol i ddysgwyr ymarfer Cymraeg, magu hyder a defnyddio'r iaith yn eu cymunedol lleol.
- Cefnogwyd mudiadau cymunedol i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn lleol gan gynnwys pwyllgor Neuadd Rhiwlas, grŵp yn Ninas Mawddwy ac aelwydydd Yr Urdd yn Llanystumdwy ac ym Mhenrhosgarnedd. Mae hyn yn cryfhau cyfleoedd i bobl o bob oed ddefnyddio'r Gymraeg mewn gweithgareddau cymunedol a chymdeithasol.
- Datblygwyd Prosiect Cefnogi Clybiau Chwaraeon i gynnal a chynyddu defnydd o'r Gymraeg. Bu clybiau pêl-droed a rygbi lleol yn cyfrannu at ddatblygu'r pecyn gan sicrhau bod y gefnogaeth yn ymarferol ac yn berthnasol i glybiau sy'n chwarae rhan bwysig ym mywydau pobl ifanc a chymunedau.
- Yn ystod y flwyddyn rhoddwyd sylw i gynyddu gweledegdd enwau Cymraeg yn ogystal â'u hyrwyddo wrth weithredu Rhaglen waith Enwau Lleoedd. Cydweithiwyd â Pheirianwyr ardal Arfon a Dwyfor i osod tua 40 o arwyddion strydoedd Cymraeg newydd a thrafodwyd rhestr o arwyddion strydoedd eraill i'w gosod yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Trefnwyd bod arwyddion Cymraeg eu hiaith yn cael eu gosod yn nhraethau Porth Neigwl a Phorthor.
- Cynghorodd y Cyngor eraill megis Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Mynwy ar brosesau mewnol y Cyngor yn ymwneud ag enwi eiddo, map enwau digidol ac ap

DRAFT

enwau i staff a rhoddwyd cyngor i Gymdeithas Ddinesig Caernarfon ynglŷn â hyrwyddo rhestr o blaciau hen Enwau Strydoedd Caernarfon.

- Mae 97% o ddisgyblion cynradd a 79.24% o ddisgyblion uwchradd yn cwblhau o leiaf 70% o'u gweithgareddau ysgol drwy'r Gymraeg, gyda lefelau uchel iawn o hyder ymhlith athrawon i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Canolfannau Iaith hefyd yn cyflawni canlyniadau rhagorol gyda 100% o ddysgwyr yn cyrraedd Lefel 1 neu uwch.

Astudiaeth Achos - Ceir astudiaethau pellach ar y wefan perfformiad y Cyngor [linc]

Datblygu a Gweithredu Polisi Iaith Addysg Gwynedd

Mae Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo ers blynyddoedd i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn datblygu sgiliau Cymraeg cadarn ac yn gallu defnyddio'r iaith yn hyderus. Fodd bynnag, yn sgil newidiadau demograffig a datblygiadau polisi cenedlaethol, daeth yn amlwg fod angen adolygu a moderneiddio'r fframwaith oedd yn llywio addysg cyfrwng Cymraeg ar draws y sir.

Er bod holl ysgolion Gwynedd yn rhannu ymrwymiad i'r Gymraeg, roedd angen sicrhau disgwyliadau cyson ar draws y system addysg gyfan. Nodwyd yr angen am bolisi cyfoes a strategol a fyddai'n darparu cyfeiriad clir i ysgolion wrth gynllunio datblygiad ieithyddol dysgwyr ac wrth gyfrannu at y nod o gynnal a chryfhau Cymreictod cymunedau Gwynedd.

Datblygwyd Polisi Iaith Addysg Gwynedd newydd i ddarparu fframwaith strategol cyson ar gyfer datblygu'r Gymraeg ar draws ysgolion y sir. Lluniwyd y polisi ar sail ymchwil, dadansoddi tystiolaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys penaethiaid, llywodraethwyr, dysgwyr, rhieni, swyddogion, aelodau etholedig a'r gymuned yn ehangach.

Wedi cyfnod o ymgynghori a mireinio, cyflwynwyd y polisi drwy brosesau democrataidd ffurfiol y Cyngor, gan gynnwys y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi a Chabinet Cyngor Gwynedd, lle cafodd ei gymeradwyo.

Datblygwyd y polisi newydd yn seiliedig ar dystiolaeth, ymchwil ac arferion presennol, gyda mewnbwn gan ysgolion a rhanddeiliaid er mwyn sicrhau bod ei gynnwys yn adlewyrchu anghenion a realiti ysgolion Gwynedd. Cafodd y polisi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar gyfer herio ac adolygu cyn cael ei gyflwyno i Gabinet Cyngor Gwynedd i'w gymeradwyo. Yn dilyn hynny, cyflwynwyd y polisi i benaethiaid ysgolion ledled y sir a chafodd ysgolion eu hannog i'w ystyried ar gyfer mabwysiadu. Er mwyn cefnogi'r broses weithredu, darparwyd canllawiau, sesiynau gwybodaeth a chyfleoedd trafod i sicrhau dealltwriaeth glir o'r disgwyliadau a , lle bo angen, mynychwyd cyfarfodydd cyrff llywodraethu i egluro cynnwys y polisi ac ymateb i ymholiadau. Yn ogystal, cafodd ysgolion gefnogaeth ymarferol i gryfhau Cymreictod a chynyddu defnydd naturiol o'r Gymraeg o fewn eu cymunedau ysgol.

DRAFT

O fabwysiadu'r polisi mae dysgwyr Gwynedd yn elwa ar gyfeiriad clir a chyson ar gyfer datblygu eu sgiliau. Mae ysgolion a chyrff llywodraethu hefyd yn elwa drwy gael fframwaith strategol i gefnogi cynllunio, gwerthuso a datblygu eu darpariaeth ieithyddol.

Yn ehangach, mae cymunedau Gwynedd yn elwa gan fod y polisi yn helpu ysgolion i gyfrannu at gynnal a chynyddu defnydd y Gymraeg, gan gefnogi'r iaith fel rhan greiddiol o fywyd cymunedol a diwylliant y sir.

Er mai cam cyntaf taith pob ysgol yw mabwysiadu'r polisi, mae effaith bwysig eisoes i'w gweld. Mae gan ysgolion Gwynedd bellach fframwaith strategol cyffredin sy'n gosod cyfeiriad clir ar gyfer datblygu'r Gymraeg a chynllunio cynnydd ieithyddol dysgwyr.

Mae'r polisi wedi sbarduno trafodaethau strategol mewn ysgolion ynghylch eu darpariaeth Gymraeg bresennol. Mae hefyd wedi darparu llwybr clir i ysgolion werthuso eu sefyllfa bresennol a chynllunio camau pellach i gryfhau defnydd y Gymraeg.

Yn ogystal, mae'r gwaith wedi cryfhau parodrwydd ysgolion i ymateb i ddatblygiadau cenedlaethol megis trefniadau categoreiddio ieithyddol ysgolion a datblygiadau polisi iaith Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.

Mae nifer cynyddol o ysgolion eisoes wedi mabwysiadu'r Polisi Iaith Addysg neu wrthi'n ystyried ei fabwysiadu drwy eu prosesau llywodraethu lleol. Mae'r ymrwymiad hwn yn dangos bod ysgolion yn cydnabod gwerth y polisi fel fframwaith strategol ar gyfer cynllunio darpariaeth ieithyddol.

Mae trafodaethau gyda phenaethiaid a llywodraethwyr yn dangos bod y polisi eisoes yn sbarduno myfyrio ar ddarpariaeth Gymraeg ysgolion ac yn darparu sail gyffredin ar gyfer cynllunio datblygiadau pellach. Mae'r galw am gyflwyniadau, eglurhad a chefnogaeth ymarferol gan swyddogion yr Adran Addysg hefyd yn dystiolaeth bod ysgolion yn defnyddio'r polisi i lywio eu cynlluniau a'u penderfyniadau.

Mae datblygu a gweithredu Polisi Iaith Addysg Gwynedd yn enghraifft gref o arweinyddiaeth strategol, cydweithio ac adeiladu consensws ar draws system addysg gyfan. Nid diwedd y daith yw mabwysiadu'r polisi gan ysgolion, ond dechrau cyfnod newydd o gynllunio a datblygu. Drwy ddarparu cyfeiriad clir a disgwyliadau cyffredin, mae'r polisi yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer cryfhau'r Gymraeg, cefnogi dysgwyr a sicrhau bod Cymreictod yn parhau'n elfen ganolog o addysg yng Ngwynedd am flynyddoedd i ddod.

DRAFT

Gwynedd Werdd

Mae Cyngor Gwynedd wedi datgan argyfwng hinsawdd, ac mae ein nod o fod yn gyngor carbon sero net ac ecolegol gadarnhaol erbyn 2030 yn parhau'n ganolog i'r maes hwn. Drwy leihau carbon, gwella bioamrywiaeth, cryfhau trefniadau ailgylchu, rheoli risgiau llifogydd a gwella opsiynau teithio, rydym yn gweithio i greu cymunedau mwy gwydn, glanach ac iachach i bobl Gwynedd:

- Lleihad sylweddol mewn allyriadau carbon.
- Ymateb i effeithiau newid hinsawdd.
- Cynnydd mewn bioamrywiaeth a chynefinoedd natur.
- Rhwydwaith rhagorol o lwybrau i drigolion gael y dewis o deithio llesol i'w man gwaith, addysg neu hamdden.
- Rhwydwaith cludiant cyhoeddus sy'n cwrdd ag anghenion cymunedau Gwynedd.

Prosiectau

- Gweithredu ar risgiau llifogydd
- Gwastraff ac ailgylchu
- Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur
- Teithio Llesol
- Trafnidiaeth Gyhoeddus
- Cynllun Datblygu Lleol newydd
- Cymunedau Glân a Thaclus

Diweddariad ar y prosiectau

Gweithredu ar risgiau llifogydd

Mae'r gwaith i reoli risgiau llifogydd wedi canolbwyntio ar roi trefniadau cliriach ar waith i ddiogelu cymunedau rhag effeithiau tywydd eithafol:

- Mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn gofyn bod y 22 Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol (ALILIA) yng Nghymru yn llunio Strategaethau Rheoli Perygl Llifogydd Lleol. Cwblhawyd a chyflwynwyd y strategaeth ar gyfer Gwynedd i Lywodraeth Cymru. Mae'r strategaeth yn gosod cyfeiriad clir ar gyfer rheoli risgiau lleol i ddiogelu cartrefi, busnesau a seilwaith cymunedol. Mae'n adnabod y peryglon presennol ac yn y dyfodol yn gysylltiedig gyda llifogydd ac erydu arfordirol, gan sicrhau bod trigolion yn ymwybodol o'r holl ffynonellau llifogydd yn y gymuned. Mae'r cynllun gwaith sy'n cyd-fynd â'r strategaeth bellach yn rhan o waith dydd i ddydd y Cyngor. Bydd hyn yn helpu i ymateb yn fwy rhagweithiol i risgiau llifogydd ac i gynyddu gwydnwch cymunedau dros amser.

Gwastraff ac ailgylchu

Mae gwaith wedi parhau i wella trefniadau gwastraff ac ailgylchu er mwyn ei gwneud yn haws i drigolion ailgylchu mwy a lleihau faint o wastraff sy'n cael ei waredu:

- Cyflwynwyd Strategaeth Wastraff ac Ailgylchu ddrafft i'r Cabinet ac ymgynghorwyd â thrigolion dros gyfnod o fwy na saith wythnos. Derbyniwyd 1,245 o ymatebion i'r ymgynghoriad, ac adroddodd 62% bod eu bin gwastraff gweddilliol ond tua tri chwarter llawn neu lai ar ddiwedd y cyfnod o 3 wythnos. Mae'r adborth wedi'i

DRAFT

ddefnyddio i gryfhau'r strategaeth, fel bod trefniadau'r dyfodol yn adlewyrchu profiad ac anghenion pobl Gwynedd.

- Treialwyd sachau hesian yn hytrach na'r cart-gylchu mewn tair cylchdaith yn ardal Arfon mewn tua 1,500 o gartrefi, gyda chanlyniadau cymharol lwyddiannus. Bwriedir cynnal treialon pellach mewn ardaloedd eraill o'r sir. Mae'r treial sachau hesian wedi dangos potensial i gynyddu capasiti ailgylchu am gost is na'r cart-gylchu, gyda 78% o ymatebwyr yn fodlon eu defnyddio ar gyfer deunyddiau ychwanegol.
- Nod yr adran Amgylchedd yw annog a pherswadio trigolion i wella eu harferion ailgylchu. Cynhaliwyd ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth penodol a derbyniodd pob aelwyd wybodaeth am wasanaethau ailgylchu. Mae hyn yn helpu i ysgogi newid ymddygiadol, gan hefyd helpu trigolion ddeall beth sydd ar gael ac i ailgylchu'n fwy cyson, a sicrhau bod y cyfraddau ailgylchu yn parhau i wella.

Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur

Yn ystod y flwyddyn, gwnaed cynnydd ymarferol i leihau ôl troed carbon y Cyngor, cryfhau seilwaith ynni glân a gwarchod natur yng Ngwynedd:

- Mae'r Cyngor bellach yn berchen ar 82 car neu fan fechan trydan a 9 hybrid, a 6 offer trydan (loading shovels, peiriannau glanhau strydoedd), sef 40% o'r holl geir a faniau y Cyngor.
- Erbyn diwedd 2025/26 mae 58 pwynt gwefru mewn 12 lleoliad ar draws y sir i gadw'r fflyd o gerbydau trydan ar y ffordd. Yn ystod yr un cyfnod gosodwyd 48 o bwyntiau gwefru mewn 12 lleoliad cyhoeddus, a 12 pwynt gwefru ychwanegol ar 4 o safleoedd y Cyngor drwy gydweithrediad â Thrafnidiaeth Cymru. Adroddwyd gan Gwasanaeth Ynni (Llywodraeth Cymru) bod gan y Cyngor ail nifer fwyaf o gerbydau gwyrdd yn ei fflyd wrth ei gymharu â chynghorau gwledig eraill yng Nghymru.
- Mae'r prosiect peilot o osod goleuadau LED ar draws stad y Cyngor wedi'i gwblhau mewn 8 safle, a bydd y ddarpariaeth yn cael ei hymestyn ar draws stad y Cyngor yn 2026/27. Bydd y gwaith hyn yn lleihau defnydd ynni a chostau rhedeg gan hefyd gyfrannu at leihau allyriadau carbon.
- Mabwysiadwyd y Cynllun Ynni Lleol gan y Cabinet ym mis Medi 2025 a bydd pob prosiect yn arbed neu'n cynhyrchu ynni yn cyfrannu at weithredu'r cynllun.

Teithio Llesol

Mae'r gwaith teithio llesol wedi canolbwyntio ar wella llwybrau cerdded a beicio, fel bod gan drigolion fwy o ddewis i deithio'n ddiogel ac yn gynaliadwy, gan sicrhau bod cerdded a beicio yn dod yn ddewis arferol ar gyfer teithiau bob dydd:

- Cwblhawyd gwaith ar Wedd 3 Ffordd Penrhos/Penchwintan ym Mangor gan greu llwybr aml-ddefnydd rhwng Ysbyty Gwynedd a Threborth. Mae'r llwybr a'r groesfan newydd ger Ysgol y Faenol yn gwneud teithio ar droed neu ar feic yn fwy diogel i blant, teuluoedd a gweithwyr lleol.
- Mae gwaith ar lwybrau cerdded a chroesfannau ar gyfer Ysgol Foel Gron, Mynytho, wedi gwella cysylltiadau yn y pentref. Mae hyn yn helpu plant, rhieni a thrigolion i symud o gwmpas yn fwy diogel.
- Defnyddiwyd £500,000 o Gronfa Cyfalaf Craidd Teithio Llesol i symud nifer o gynlluniau ymlaen, gan gynnwys, Chwilog i Afonwen, Tywyn i Aberdyfi, Llanberis i Gaernarfon, Llanystumdwy i Gricieth a Bethel i Gaernarfon. Bydd y cynlluniau hyn yn gwella cysylltiadau lleol ac yn cynnig mwy o gyfleoedd i deithio heb ddibynnu ar gar.

- Datblygwyd pecynnau gwybodaeth ar gyfer penaethiaid i godi ymwybyddiaeth o ddiogelwch y ffyrdd, teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus. Bydd ymgynghoriad pellach yn 2026 yn rhoi cyfle i drigolion ddylanwadu ar flaenoriaethau teithio llesol y dyfodol.

Trafnidiaeth Gyhoeddus
Mae gwaith trafnidiaeth gyhoeddus wedi canolbwyntio ar wella mynediad at wasanaethau bysiau a gwneud teithio yn haws i drigolion ac ymwelwyr:

- Parhawyd i beilota a monitro gwasanaethau Sherpa'r Wyddfa, G23 rhwng Bermo a Phorthmadog a'r gwasanaeth Fflecsi yn Ne Meirionnydd. Gwnaed 563,783 o siwrneiau yn 2025/26 sy'n gynnydd o 6.6% ar y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn dangos bod mwy o bobl yn defnyddio opsiynau teithio cyhoeddus.
- Gan bod hen aros fannau bysiau y Sir wedi gweld dyddiau gwell, adnabuwyd safleoedd i flaenoriaethu gwelliannau a gosod aros fannau newydd. Cwblhawyd gwelliannau gwerth £500,000 i aros fannau bysiau yn unol â'r rhaglen mewn 9 lleoliad ar draws Arfon, Dwyfor a Meirionnydd. Mae hyn wedi gwneud teithio ar fws yn fwy cyfforddus, hygyrch a dibynadwy, sy'n cynnig gwell profiad i deithwyr.

Cynllun Datblygu Lleol newydd
Mae gwaith ar y Cynllun Datblygu Lleol newydd wedi dechrau gosod y sylfaen ar gyfer cynllunio dyfodol cymunedau Gwynedd:

- Cynhaliwyd arolwg anffurfiol i gasglu barn ar y materion y dylai'r Cynllun Datblygu Lleol eu hystyried. Mae hyn yn rhoi cyfle i bobl gyfrannu at benderfyniadau sy'n gallu dylanwadu ar dai, swyddi, gwasanaethau a'r amgylchedd lleol.
- Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu opsiynau strategol, gan gynnwys ystyried tystiolaeth demograffig Gwynedd. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y cynllun yn ymateb i anghenion cymunedau lleol dros y blynyddoedd nesaf.

Cymunedau Glân a Thaclus
Mae'r prosiect Cymunedau Glân a Thaclus wedi canolbwyntio ar wella golwg trefi a chymunedau, a chefnogi amgylcheddau lleol mwy dymunol i drigolion, busnesau ac ymwelwyr:

- Mae'r glanhawyr canol tref bellach yn weithredol yn Arfon, Dwyfor a Meirionnydd. Mae eu presenoldeb yn helpu i gadw canol trefni'n lanach ac yn fwy deniadol i bobl sy'n byw, gweithio ac ymweld â'r ardaloedd hyn.
- Prynwyd wyth peiriant ysgubo ffordd pwrpasol fel rhan o'r broses o foderneiddio'r fflyd glanhau. Bydd hyn yn helpu'r gweithlu i ymateb yn fwy effeithiol ac i gynnal safonau glendid mewn cymunedau lleol.
- Mae Timau Tacluso Ardal Ni yn parhau i gydweithio â chynghorau cymuned a thref ac aelodau lleol. Bydd adborth gan y cynghorau hyn yn helpu i flaenoriaethu gwaith taclus lle mae'r angen mwyaf. Mae hyn yn hybu perchnogaeth leol gan ddatblygu ymdeimlad o falchder bro drwy weithio ar lefel cymunedol.

DRAFT

Rhai o'n prif gyflawniadau

- Mae gwelliannau mewn canolfannau ailgylchu megis sicrhau bod paent dros ben yn gallu cael ei ail-ddefnyddio. Mae hyn yn lleihau gwastraff, yn arbed costau ac yn rhoi budd ymarferol i drigolion sy'n gallu defnyddio adnoddau fyddai fel arall yn cael eu taflu.
- Mae astudiaeth diweddar yn dangos bod 57% o gynnwys biniau trigolion a 58% o finiau busnes yn cynnwys deunyddiau y gellid eu hailgylchu. Mae treial agor bagiau duon mewn canolfannau ailgylchu wedi lleihau faint o ddeunydd ailgylchadwy sy'n mynd i'r gwastraff gweddilliol. Mae hyn yn helpu trigolion i wneud gwell defnydd o gyfleusterau ailgylchu ac yn lleihau effaith amgylcheddol gwastraff.
- Cyflwynwyd glanhawyr tref yng nghanol Bangor, Caernarfon a Phorthmadog. Mae eu presenoldeb dyddiol yn golygu bod problemau glendid yn cael sylw'n gynt, gan greu canol trefi mwy croesawgar i drigolion, busnesau ac ymwelwyr.
- Mae'r gwaith o drosglwyddo fflyd y Cyngor i gerbydau gwyrdd yn parhau gyda 89 o geir neu faniau yn drydan neu'n hybrid erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. O gymharu 2024/25 â 2025/26 gwelir gostyngiad o 6.1% yn y defnydd o danwydd neu 102,525 litr yn llai o danwydd. Gwelir y gostyngiad oherwydd trosglwyddiad nifer o gerbydau o rhai tanwydd traddodiadol i rai trydan. Mae tywydd ffafriol hefyd yn golygu bod llai o ddefnydd o gerbydau graeanu ac ati yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn lleihau allyriadau ac yn cefnogi gwasanaethau cyhoeddus glanach ar draws Gwynedd.
- Cwblhawyd gwelliannau ar Lôn Las Ogwen, a gosodwyd pont droed aml-ddefnydd newydd dros Afon Ogwen. Mae hyn yn gwella mynediad i gerddwyr a beicwyr, ac yn cryfhau cysylltiadau rhwng cymunedau, llwybrau hamdden ac atyniadau lleol.
- Mae'r gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu yn llwyddo i gasglu 99.8% o finiau yn gywir a phrydlon, gan adlewyrchu lefel uchel o berfformiad gweithredol. Yn ystod y cyfnod rhwng 2023/24 a 2024/25 cofnodwyd gostyngiad sylweddol o dros 8,200 o gwynion, sy'n cyfateb i leihad o 44%. Bu gostyngiad pellach o 1,600 (15%) o gwynion rhwng 2024/25 a 2025/26. Mae'r gostyngiad parhaus yn adlewyrchu gwelliannau sylweddol yn nhrefniadau gweithredu'r adran.

<u>Astudiaeth Achos - Ceir astudiaethau pellach ar y wefan perfformiad y Cyngor [linc]</u>

Canolfannau Ailgylchu

Er mwyn moderneiddio canolfannau ailgylchu Gwynedd a lleihau gwastraff, cyflwynwyd nifer o welliannau ymarferol yn ystod 2025/26. Roedd dau brif her yn bodoli: y gost a'r gwastraff a oedd yn gysylltiedig â gwaredu potiau paent hanner llawn, a'r ffaith bod llawer o ddeunyddiau ailgylchadwy yn cael eu taflu mewn bagiau duon gyda gwastraff gweddilliol yn hytrach na chael eu hailgylchu.

Mewn ymateb, cyflwynwyd cynllun i ail-ddefnyddio paent dros ben mewn canolfannau ailgylchu, gan alluogi trigolion i fynd â phaent o'r canolfannau ailgylchu yn rhad ac am ddim. Mae hyn wedi helpu i leihau gwastraff, arbed arian i drigolion a'r Cyngor, a sicrhau bod adnoddau defnyddiol yn cael eu hailddefnyddio yn hytrach na'u taflu. Yn ogystal,

cyflwynwyd cynllun i agor bagiau duon mewn canolfannau ailgylchu er mwyn adnabod a gwahanu deunyddiau y gellir eu hailgylchu cyn iddynt gael eu gwaredu.

Mae'r gwelliannau hyn wedi bod o fudd i drigolion ac i'r amgylchedd. Mae'r cynllun paent wedi derbyn adborth hynod gadarnhaol gan y cyhoedd, tra bod llai o baent yn cael ei waredu. Yn yr un modd, mae'r cynllun agor bagiau duon wedi arwain at ostyngiad sylweddol yn y swm o ddeunydd ailgylchadwy sy'n mynd i'r ffrwd wastraff gweddilliol, gan gynyddu cyfraddau ailgylchu yn y canolfannau. Mae'r fenter yn enghraifft o sut y gall newidiadau syml ond effeithiol leihau gwastraff, gwella perfformiad amgylcheddol a gwneud defnydd gwell o adnoddau lleol.

DRAFT

Gwynedd Effeithlon

Mae Gwynedd Effeithlon yn canolbwyntio ar sicrhau bod y Cyngor yn defnyddio ei bobl, ei gyllid, ei dechnoleg a'i asedau yn y ffordd orau er mwyn darparu gwasanaethau da, teg a chadarn i drigolion Gwynedd:

- Hybu diwylliant gweithio agored a chynhwysol sydd bob amser yn rhoi anghenion pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.
- Darparu adnoddau staffio digonol ac addas ar gyfer cyflwyno gwasanaethau.
- Bod yn sefydliad sy'n gofalu am lesiant ein gweithlu ac yn gwreiddio egwyddorion cydraddoldeb yn naturiol ym mhob rhan o'r sefydliad.
- Gwneud y defnydd gorau o bob adnodd ariannol.

Prosiectau

- Cynllunio'r Gweithlu
- Datblygu diwylliant y Cyngor
- Sicrhau tegwch i bawb
- Merched mewn Arweinyddiaeth
- Rheoli effaith toriadau cyllidol cenedlaethol
- Cynllun Digidol
- Adolygiad strategol ar reolaeth Iechyd a Diogelwch
- Mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau Eiddo er mwyn sicrhau bod ein hystâd yn addas i bwrpas ar gyfer gweithio yn y dyfodol

Diweddariad ar y prosiectau

Cynllunio'r Gweithlu

Mae gwaith cynllunio'r gweithlu wedi canolbwyntio ar sicrhau bod gan y Cyngor gyflenwad digonol o staff cymwys i'w alluogi i ddarparu gwasanaethau i drigolion y sir, yn ogystal â staff a'r sgiliau cywir i barhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol i drigolion: Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Drwy gydweithio ag adrannau a gwasanaethau'r Cyngor i gynhyrchu cynlluniau gweithlu, lluniwyd Cynllun Gweithlu drafft, gyda'r bwriad o ymgynghori arno yn ystod 2026/27. Bydd y cynllun yn helpu'r Cyngor i baratoi'n well ar gyfer anghenion staffio'r dyfodol ac i gynnal gwasanaethau sefydlog i bobl Gwynedd, drwy adnabod swyddi allweddol wedi'u hasesu ar sail risg i barhad gwasanaeth, dadansoddi proffil gweithlu'r timau, cynhyrchu cynlluniau gweithredu a sefydlu trefniadau adolygu i'r cynlluniau.

Datblygu diwylliant y Cyngor

Mae gwaith datblygu diwylliant y Cyngor wedi parhau i wreiddio ffordd o weithio sy'n rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i benderfyniadau a gwasanaethau:

- Parhawyd i weithredu cynllun gwaith i ddatblygu diwylliant y Cyngor, gyda ffocws penodol ar wrando ar staff, cryfhau cyfathrebu a chefnogi rheolwyr yn eu rôl arwain. Cynhaliwyd Arolwg Llais Staff 2026, gyda'r canlyniadau yn cael eu rhannu a'u trafod gyda'r Tîm Rheoli Corfforaethol, timau rheoli adrannol a'r Rhwydwaith Rheolwyr. Datblygwyd cynlluniau ymateb adrannol er mwyn sicrhau bod adborth staff yn arwain at

gamau gweithredu ymarferol ac i gryfhau ymddiriedaeth bod barn staff yn gwneud gwahaniaeth.

- Parhawyd i ddefnyddio'r Rhwydwaith Rheolwyr fel cyfrwng allweddol i drafod diwylliant sefydliadol, rhannu canfyddiadau o'r Arolwg Llais Staff a hyrwyddo disgwyliadau arweinyddiaeth y Cyngor. Roedd hyn yn cyfrannu at gryfhau perchnogaeth rheolwyr o'r agenda diwylliant a chefnogi gwell cyfathrebu a chydweithio ar draws adrannau.
- Yn ogystal, sefydlwyd trefniadau llywodraethu newydd ar gyfer gwaith Llais Staff, gan gynnwys grwpiau trawsadrannol i fonitro cynnydd, rhannu arfer da ac adnabod gwelliannau corfforaethol. Mae hyn yn cefnogi'r uchelgais i feithrin diwylliant lle mae staff yn teimlo bod eu llais yn cael ei wrando arno a bod y sefydliad yn dysgu ac yn gwella'n barhaus.

Sicrhau tegwch i bawb

Mae gwaith tegwch wedi canolbwyntio ar sicrhau bod penderfyniadau'r Cyngor yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn ystyried effaith ar wahanol bobl a chymunedau. Dyma gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

- Crëwyd dashfwrdd craidd o ddata am Wynedd i gefnogi asesiadau effaith. Bydd hyn yn helpu'r Cyngor i wneud penderfyniadau mwy gwybodus a sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'n decach i bawb.
- Mae trefn electroneg newydd ar gyfer asesiadau effaith cydraddoldeb yn barod i'w hyrwyddo, a mae'r gwaith o godi ymwybyddiaeth wedi dechrau gyda thimau rheoli. Bydd codi ymwybyddiaeth rheolwyr o'r angen i wneud asesiad yn sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 er mwyn gwella'r polisïau a'r gweithdrefnau, a sicrhau bod materion cydraddoldeb yn cael sylw dyledus wrth wneud unrhyw newidiadau.

Merched mewn arweinyddiaeth

Mae'r gwaith Merched mewn Arweinyddiaeth wedi parhau i gefnogi menywod i ddatblygu hyder, eu rhwydweithiau a'u cyfleoedd i arwain:

- Cynhaliwyd dwy gyfres o'r fforwm 'Sgyrsiau Dros Baned', gyda'r sesiynau yn parhau i fod yn boblogaidd. Maent yn rhoi cyfle i fenywod sydd mewn rolau arwain yn ogystal â merched allanol i fod yn rannu eu profiadau a'u cefndir ac yn fodd i fagu hyder a chefnogi ei gilydd o fewn y gweithle. Mae'n fforwm gyfeillgar ac anffurfiol.
- Crëwyd fideo i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol y Merched a llwyddiannau menywod o fewn y Cyngor. Mae hyn yn codi proffil merched mewn arweinyddiaeth ac yn annog eraill i ystyried cyfleoedd datblygu. Daeth chweched gyfres y rhaglen ddatblygol i ben, gyda 13 o fenywod yn cymryd rhan eleni a 71 wedi cymryd rhan ers ei sefydlu. Mae hyn yn cryfhau'r llif datblygu arweinyddiaeth ac yn cefnogi mwy o fenywod i ystyried a symud ymlaen i swyddi uwch.
- Nid oes digwyddiad penodol wedi'i gynnal yn uniongyrchol i godi ymwybyddiaeth ymysg dynion o gyfleoedd y rhaglen Merched Mewn Arweinyddiaeth, ond defnyddir cyfleoedd i hyrwyddo gwaith y prosiect mewn amrywiol rwydweithiau a chyfarfodydd.

DRAFT

Rheoli effaith toriadau cyllidol cenedlaethol
Mae'r gwaith ar reoli effaith toriadau cyllidol wedi canolbwyntio ar fonitro sefyllfa ariannol y Cyngor a chynllunio arbedion mewn ffordd gyfrifol:

- Monitrwyd perfformiad ac adroddwyd arno i'r Cabinet a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn sicrhau goruchwyliaeth glir dros gynnydd ac yn helpu i wneud penderfyniadau ariannol tryloyw.
- Yn dilyn sefydlu'r Bwrdd Rhaglen Cynllun Ariannol Tymor Canolig, darparwyd gwybodaeth ar arbedion a thoriadau 2025/26. Bydd hyn yn helpu'r Cyngor i gynllunio'n well a lleihau'r effaith ar wasanaethau i drigolion lle bo modd.

Cynllun Digidol
Mae'r Cynllun Digidol wedi canolbwyntio ar wella systemau, cryfhau cadernid seibr a gwneud gwasanaethau'n fwy effeithlon i staff a thrigolion:

- Cwblhawyd y gwaith o wella darpariaeth ffôn y Cyngor, gyda phawb wedi symud i'r ddarpariaeth newydd. Mae hyn yn cynnwys 3 Canolfan Cyswllt, 1719 ffôn meddal a 1539 ffôn ddesg sydd bellach yn fyw. Mae'n cryfhau'r gallu i gysylltu â gwasanaethau'r Cyngor mewn ffordd fwy dibynadwy.
- Dewiswyd cyflenwr newydd ar gyfer cyflwyno system Cyflogau ac Adnoddau Dynol newydd, gyda'r nod o dalu cyflogau drwy'r system newydd ym mis Rhagfyr 2026. Bydd hyn yn moderneiddio prosesau mewnol ac yn cefnogi gwasanaeth mwy effeithlon i staff.
- Ychwanegwyd Swyddog Cadernid Seibr i'r tîm TG, a mae gwaith yn parhau i ddatblygu a phrofi cynllun ymateb i ddigwyddiadau. Bydd hyn yn cryfhau diogelwch gwasanaethau digidol ac yn helpu i ddiogelu gwybodaeth pobl Gwynedd.

Adolygiad strategol ar reolaeth Iechyd a Diogelwch
Mae'r adolygiad Iechyd a Diogelwch wedi canolbwyntio ar greu trefniadau mwy cyson a rhagweithiol i reoli risgiau ar draws y Cyngor:

- Cwblhawyd cam cyntaf system Technoleg Gwybodaeth newydd ar gyfer Iechyd a Diogelwch sef ffurflen electronig i adrodd damweiniau, digwyddiadau a methiannau agos. Cynhaliwyd peilot cynlluniedig, ochr wrth ochr â rhaglen strwythuredig i reolwyr, gan fabwysiadu dull 'hyfforddi'r hyfforddwyr'. Mae dros 450 o reolwyr wedi derbyn hyfforddiant, gan amlygu effeithlonrwydd, cysondeb a gwell ansawdd adrodd.
- Cryfhawyd y gofrestr risg corfforaethol i fapio gofynion deddfwriaethol ar draws y Cyngor. Bydd hyn yn helpu i flaenoriaethu archwiliadau ar sail risg wirioneddol ac i reoli iechyd a diogelwch yn fwy effeithiol dros y tymor hir.
- Gwnaed cynnydd ar gynllun gweithredu i gyflwyno model integredig ar gyfer rheoli Iechyd a Diogelwch. Bydd hyn yn lleihau risgiau, gwella llesiant y gweithlu ac yn cefnogi gwasanaethau mwy diogel a dibynadwy i drigolion.

Mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau Eiddo er mwyn sicrhau bod ein hystâd yn addas i bwrpas ar gyfer gweithio yn y dyfodol
Mae gwaith ar asedau eiddo wedi canolbwyntio ar sicrhau bod adeiladu'r Cyngor yn addas, hygyrch ac yn cefnogi ffyrdd modern o weithio:

DRAFT

- Adnabuwyd anghenion swyddfa yn Ffordd y Cob a Phenarlâg, a chomisiynwyd gwaith dichonoldeb ar gyfer safle Penarlâg. Bydd hyn yn helpu'r Cyngor i wneud defnydd gwell o'i safleoedd ac i gynllunio lleoliadau gwaith sy'n addas ar gyfer y dyfodol.
- Cwblhawyd y Gofod Lles yn y Pencadlys a mae bellach yn weithredol, ac yn cael ei ddefnyddio yn ystod amser cinio, i gynnal cyfarfodydd ac at ddefnydd unigol. Sicrhawyd cyllid hefyd i wella darpariaethau cydraddoldeb a hygyrchedd, gan greu amgylchedd gwaith mwy cynhwysol i staff ac ymwelwyr.
- Cynlluniau hefyd wedi eu gwneud i wneud addasiadau i Swyddfeydd Penrallt er mwyn adleoli swyddogion PP/YGC o swyddfeydd Cibyn a chanoli'r gwasanaethau plant.

Rhai o'n prif gyflawniadau

- Mae arbedion gwerth bron i £7 miliwn, sef 93% o'r cynlluniau arbedion diwygiedig ers 2015/16 bellach wedi'u gwireddu.
- Ers fis Tachwedd 2025, mae 100% o daliadau wedi'u talu trwy BACS. Mae'r ymgyrch i symud mwy i BACS wedi'i gwblhau ac yn golygu ein bod wedi gallu symud i ffwrdd yn llwyr o dalu efo sieciau. Bydd hyn yn moderneiddio'r broses dalu, gan ddileu'r angen am sieciau a chreu trefniadau mwy effeithlon, diogel a dibynadwy.
- Drwy'r Academi Gofal, trefnwyd 65 o brofiadau gwaith a phenodwyd 6 hyfforddai newydd yn 2026, a mae bellach 11 o hyfforddeion yn rhan o'r Academi. Mae'r cynllun yn darparu amryw o gyfleoedd i weithio gyda phobl brofiadol o fewn y Cyngor a rhoi'r cyfle i ddatblygu sgiliau er mwyn sicrhau gyrfa hir a llwyddiannus o fewn gwasanaethau Gofal Cyngor Gwynedd.
- Cynhaliwyd Arolwg Llais Staff yn ystod y flwyddyn, a mae'r canlyniadau yn cael eu defnyddio i adnabod anghenion ein gweithwyr a sut gall y Cyngor wella ymhellach.
- Mae Cynllun Yfory a'r Cynllun Prentisiaethau yn cyfrannu at gryfhau gweithlu'r Cyngor drwy ddatblygu talent fewnol, denu pobl newydd i feysydd allweddol a chefnogi cynllunio olyniaeth ar draws gwasanaethau. Ar gyfer 2026, mae cyfanswm o 30 o swyddi newydd ar gael, sef 22 swydd prentis a 8 swydd i raddedigion gyda rhan fwyaf wedi eu llenwi yn barod.

<u>Astudiaeth Achos - Ceir astudiaethau pellach ar y wefan perfformiad y Cyngor [linc]</u>

Hyfforddeion – Prentisiaid a'r Graddedigion

Ers 2019, mae'r Cynllun Prentisiaethau wedi rhoi cyfle i 103 o unigolion ar gytundeb prentis sy'n un o'r niferoedd uchaf yng Nghymru wrth gymharu gyda phoblogaeth a maint Cynghorau eraill. Yn yr un modd, ers 2017, mae'r Cynllun Graddedigion, sef Cynllun Yfory, wedi rhoi cyfle i 47 hyfforddai proffesiynol.

Mae nifer o enghreifftiau o lwyddiant, gydag amryw o unigolion sydd wedi cychwyn ar y cynlluniau yn derbyn dyrchafiadau a swyddi parhaol o fewn y Cyngor. Ar gyfer 2026, mae cyfanswm o 30 o swyddi newydd ar gael, sef 22 swydd prentis a 8 swydd i raddedigion gyda rhan fwyaf wedi eu llenwi yn barod. Mae meysydd y swyddi yn amrywio – o feysydd newydd fel cynnal tiroedd, coedyddiaeth a marchnata digidol, i rhai sefydlog megis Peirianneg sifil,

DRAFT

Cyllid a busnes i enwi dim ond rhai. Canmolwyd y cynlluniau gan Archwilio Cymru mewn adroddiad diweddar yn 2026.

DIWEDD

DRAFT

Cyfraniad at y 5 Ffordd o Weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

	Hirdymor	Atal	Integreiddio	Cydweithio	Cynnwys
GWYNEDD YFORY					
Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar	✓	✓	✓	✓	✓
Moderneiddio adeiladau a'r amgylchedd dysgu	✓	✓	✓	✓	✓
Hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc a lleihau cost anfon plant i'r ysgol	✓	✓	✓	✓	✓
Ymestyn cyfleoedd chwarae a chymdeithasu ar gyfer plant a phobl ifanc y sir	✓	✓	✓	✓	✓
Llunio a gweithredu ar gyfeiriad strategol 10 mlynedd ar gyfer addysg yng Ngwynedd	✓	✓	✓	✓	✓
Adolygu a gwella'r ystod o ddarpariaethau cynhwysiad yng Ngwynedd	✓	✓	✓	✓	✓
GWYNEDD LEWYRCHUS					

DRAFT

Hyrwyddo ein diwylliant ac economi ymweld gynaliadwy	✓	✓	✓	✓	✓
Adfywio cymunedau a chanol trefi	✓	✓	✓	✓	✓
Creu'r amgylchiadau gorau posibl yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu, a chefnogi pobl Gwynedd mewn i waith	✓	✓	✓	✓	✓
Cadw'r Budd yn Lleol	✓	✓	✓	✓	✓
GWYNEDD GLYD					
Cynyddu'r cyflenwad o dai i bobl leol	✓	✓	✓	✓	
Ymdrin â'r argyfwng costau ynni a thlodi tanwydd	✓	✓		✓	
Sicrhau bod neb yn ddigartref yng Ngwynedd	✓	✓		✓	
Rheolaeth ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr	✓	✓	✓	✓	✓
GWYNEDD OFALGAR					

DRAFT

Moderneiddio ein hadnoddau gofal i gwrdd ag anghenion y dyfodol	✓	✓	✓	✓	✓
Defnyddio mwy ar dechnoleg i wella gallu trigolion Gwynedd i gael mynediad at gefnogaeth a gofal	✓	✓	✓	✓	✓
Sicrhau bod cefnogaeth amserol a llawn i'w gael i gefnogi pobl i allu byw adref gyda'u teuluoedd	✓	✓	✓	✓	✓
Cydweithio gyda Gwasanaethau Iechyd i alluogi pobl i fyw eu bywyd gorau yn y gymuned	✓	✓	✓	✓	✓
Datblygu cyfleoedd hyfforddi a gwaith ar gyfer unigolion sydd angen cefnogaeth	✓	✓	✓	✓	✓
Llechen Lân	✓	✓	✓	✓	✓
Cefnogi Llesiant Pobl		✓	✓	✓	✓
Cynllun Awtistiaeth	✓	✓		✓	✓
Datblygu darpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn cartrefi grŵp bychan	✓	✓	✓	✓	✓
GWYNEDD GYMRAEG					

DRAFT

Moderneiddio ac ehangu'r ddarpariaeth drochi ar gyfer dysgu Cymraeg i blant	✓	✓			
Hybu defnydd o'r Gymraeg gan drigolion Gwynedd	✓	✓	✓	✓	✓
Adolygu Polisi Iaith Addysg Gwynedd ynghyd â chynnal gwerthusiad o'r Gyfundrefn Drochi er mwyn sicrhau bod yr holl bolisïau a gwasanaethau addysg a ddarperir i blant a phobl ifanc yng Ngwynedd yn gosod sylfaen gadarn i'r Gymraeg	✓	✓	✓	✓	✓
GWYNEDD WERDD					
Gweithredu ar risgiau llifogydd	✓	✓	✓	✓	✓
Gwastraff ac ailgylchu	✓	✓	✓	✓	✓
Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur	✓	✓	✓	✓	✓
Teithio Llesol	✓	✓	✓	✓	✓
Trafnidiaeth Gyhoeddus	✓	✓	✓	✓	✓

DRAFT

Cynllun Datblygu Lleol newydd	✓	✓	✓	✓	✓
Cymunedau Glân a Thaclus	✓	✓	✓	✓	✓
GWYNEDD EFFEITHLON					
Cynllunio'r Gweithlu	✓	✓	✓	✓	✓
Datblygu diwylliant y Cyngor	✓	✓	✓	✓	✓
Sicrhau tegwch i bawb	✓	✓		✓	
Merched mewn Arweinyddiaeth				✓	
Rheoli effaith toriadau cyllidol cenedlaethol	✓	✓	✓	✓	✓
Cynllun Digidol	✓	✓	✓	✓	✓
Adolygiad strategol ar reolaeth Iechyd a Diogelwch	✓	✓	✓	✓	✓
Mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau Eiddo er mwyn sicrhau bod ein hystâd yn addas i bwrpas ar gyfer gweithio yn y dyfodol	✓	✓	✓	✓	✓

DRAFT

https://www.llyw.cymru/llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru

https://www.gov.wales/well-being-of-future-generations-wales

DRAFT